Producer Manual_Welsh 09/10/2011 10:06 Page 1

**CYNLLUN GWARANT FFERM DA BYW CYMRU**
**CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF**

# Llawlyfr y Cynhyrchwr

**Cyhoeddwyd gan**
**Ardystio Bwyd Cymreig o Ansawdd Cyf**

**Mae FAWL yn rhan o gwmni Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf**
**Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2WB**

**Ffôn (01970) 636688** **Ffacs (01970) 624049** **E-bost: info@wlbp.co.uk**

**Cyflwyniad a Manylion am y Cynllun:**

Mae Gwarant Fferm Da Byw Cymru (FAWL) yn adran o Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf, sef cymdeithas gydweithredol sy'n cael ei rhedeg gan ffermwyr er budd ffermwyr. Sefydlwyd Cynllun Gwarantu Cig Eidion a Chig Oen FAWL (Cynllun FAWL) er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr am safon uchel iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a rheolaethau amgylcheddol ar ffermydd Cymru: ei nod yw meithrin hyder parhaol y defnyddiwr yn ein ffermydd ac yn ein cig. Mae'n bolisi gan FAWL fod pob fferm yn sicrhau iechyd a lles y da byw yn seiliedig ar bum angen sylfaenol (a) peidio â dioddef syched, newin a chamfaethiad; (b) cysur a chysgod priodol; (c) atal anaf, clefyd neu heigiad, neu sicrhau diagnosis cyflym ohonynt; (d) peidio â dioddef ofn; (e) rhyddid i arddangos y rhan fwyaf o batrymau ymddygiad. Hefyd, rhaid i fferm warant roi sylw i ddiogelu'r amgylchedd a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

Bydd Ardystio Bwyd Cymreig o Ansawdd Cyf (QWFC), cwmni sy'n gweithredu yn unol â safonau sy'n cael eu cydnabod ledled Ewrop, Safon Ewropeaidd EN45011, yn monitro Cynllun FAWL ac yn archwilio ffermydd. Bydd QWFC yn rhoi tystysgrifau cydymffurfio i'r cynhyrchwyr hynny sy'n cydymffurfio â Safonau'r Cynllun.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth y mae'n rhaid i chi ei darllen cyn penderfynu ymuno â'r Cynllun neu gadw eich aelodaeth – gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut ydym yn ymgymryd ag ymweliadau asesu ac, yn bwysicach, Safonau'r Cynllun. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cyfan o'r safonau cyn gwneud eich cais am ardystiad neu cyn eich asesiad nesaf.

**Asesiadau**

Rydym yn archwilio i weld a yw ffermydd yn cydymffurfio â Safonau'r Cynllun ai peidio trwy gyfrwng system o asesiadau fferm gan un o'n haseswyr enwebedig neu gorff asesu. Mae angen asesiad fferm cychwynnol cyn cadarnhau aelodaeth ac wedyn bydd ail-ymweliadau o leiaf bob 18 mis er mwyn asesu cydymffurfiad parhaus â Safonau'r Cynllun: bydd ein hasesydd yn cysylltu â chi pan mae'n bryd cynnal eich asesiad fferm er mwyn trefnu dyddiad sy'n gyfleus ar gyfer yr ymweliad. Oni allwch gytuno ar apwyntiad erbyn y dyddiad y mae'r asesiad i fod i'w gynnal, gall y bydd eich ardystiad yn cael ei ohirio neu ei dynnu'n ôl tan ar ôl yr asesiad. Ambell waith, gall y bydd rhaid i ni ail-ymweld â'ch fferm er mwyn gwneud yn siŵr fod camau cywirol angenrheidiol, yn dilyn yr ymweliad cychwynnol, wedi'u cymryd. Rhaid dewis nifer o aelodau ar gyfer asesiad ar hap bob blwyddyn; mae'r asesiadau hyn yn ychwanegol ar yr ymweliadau archwilio rheolaidd. Fel arfer dylai asesiad gymryd tua 2 awr i'w gwblhau, oni cheir unrhyw gymhlethdodau.

Byddwch cystal â cheisio paratoi ar gyfer yr ymweliad fel bod modd gwneud yr asesiad mor effeithiol â phosibl. Os nad yw'r asesydd yn gallu cwblhau'r broses yn ystod un ymweliad am nad oedd rhai cofnodion efallai ar gael yn syth neu am nad oedd rhai cyfleusterau ar gael, gall y bydd rhaid galw eto ac, yn anffodus, rhaid i ni drosglwyddo'r gost ychwanegol.

Bydd hi'n ofynnol i'r asesydd:
(a) siarad â'r person sy'n gyfrifol am y da byw (b) adolygu cofnodion y fferm, megis cofnodion symud a chofnodion meddyginiaeth (c) bod â mynediad i gyfleusterau trafod a storio ac adeiladau fferm (d) gweld sampl o'r da byw. Gwnewch yn siŵr fod yr asesydd yn gweld yr holl wahanol rywogaethau o anifeiliaid: os taw dim ond defaid sydd gennych ar y fferm adeg yr asesiad, ond eich bod ambell waith yn prynu gwartheg stôr i'w pesgi, byddwch yn cael ardystiad ar gyfer defaid yn unig. Os ydych chi'n dymuno cynyddu neu newid cwmpas eich ardystiad i gynnwys rhywogaeth arall, rhowch wybod i ni ac fe drefnwn asesiad. **Gwiriwch eich dogfennau'n ofalus er mwyn gwneud yn siŵr fod gennych bopeth sydd ei angen.**

Os daw hi'n amlwg yn ystod asesiad nad yw eitem yn cydymffurfio â Safonau'r Cynllun, caiff hynny ei gofnodi gan yr asesydd ar y "Ffurflen Diffyg Cydymffurfiad" a gofynnir i chi gytuno a llofnodi. Bwriad y ffurflen hon yw darparu gwybodaeth yn unig ac nid yw'n dynodi a geir ardystiad ai peidio.

Bydd y "Ffurflen Diffyg Cydymffurfiad" ynghyd ag adroddiad llawn gan yr asesydd yn cael eu hanfon i QWFC i'w hystyried. Bydd QWFC yn ysgrifennu atoch o fewn 14 diwrnod i roi canlyniadau'r asesiad i chi. Os oes angen cadarnhau unrhyw ddiffygion cydymffurfio, byddwn yn anfon ffurflen "Angen Camau Cywirol" atoch. Rhaid llenwi hon a'i dychwelyd i QWFC. Bydd y ffurflen hon yn esbonio'r hyn sydd ei angen gennych a'r dyddiad olaf ar gyfer cwblhau unrhyw gamau. Mae'n bosibl taw'r cyfan fydd ei angen gennych fydd cadarnhad eich bod wedi delio â'r problemau a darparu tystiolaeth ar bapur neu fel arall os oes angen. Dan amgylchiadau eraill, gall y bydd rhaid ailasesu, a gallai hynny olygu tâl; gofynnir i chi gytuno â hyn cyn i ni gario ymlaen. Ni fydd tâl yn cael ei ad-dalu.

Os nad oes gennych unrhyw ddiffygion cydymffurfio neu os ydych wedi cymryd camau i gywiro unrhyw faterion a godwyd gan ein hasesydd, byddwch chi'n gymwys i ymuno neu gael eich ail-gadarnhau'n aelod o Gynllun FAWL. Bydd gennych ganiatâd i ddefnyddio'r nod Cynllun priodol a logo QWFC ar gynhyrchion, deunydd darllen, papur ysgrifennu a deunydd hysbysebu. I gael manylion llawn ynglŷn â defnyddio nodau'r Cynllun a logo QWFC, byddwch cystal â darllen y daflen "Amodau'n Ymwneud â Defnyddio Nodau Ardystio" sydd ar y wefan www.fawl.co.uk neu gofynnwch amdani ar 01970 636688.

Oni fyddwch yn gallu cadarnhau cydymffurfiad erbyn y dyddiad penodedig, rhaid i chi gysylltu â ni ar unwaith fel y gallwn drafod y mater gyda chi. Gall tystysgrifau gael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl oni fydd camau cywirol yn cael eu cwblhau'n brydlon. Unwaith y mae QWFC yn fodlon bod y camau gofynnol wedi'u cymryd, bydd eich ardystiad yn cael ei gadarnhau.

Os nad oes modd i chi ymgymryd â'r gwaith gofynnol erbyn y dyddiad penodedig, bydd rhaid atal ardystiad yr aelodaeth bresennol dros dro ac ni allwch werthu eich cynnyrch fel cynnyrch 'gwarant fferm'. Hefyd, bydd rhaid atal eich aelodaeth dros dro os yw'ch tanysgrifiad yn hwyr. Byddwch yn cael gwybod os yw hyn yn digwydd a byddwn yn esbonio'r hyn sydd raid ei wneud er mwyn

adennill ardystiad. Er enghraifft, gall y bydd angen i chi roi sylw i ddiffygion cydymffurfio a welwyd yn ystod asesu ac unwaith y byddant wedi'u cywiro fe fyddwch â "gwarant fferm" unwaith eto. Fodd bynnag, rhaid cyfrifo unrhyw gyfnodau preswyl ar gyfer da byw o'r dyddiad y cafodd ardystiad ei adfer. Bydd ardystiad yn cael ei dynnu yn ôl yn barhaol yn dilyn ataliad dros dro a bydd yn golygu fod eich ardystiad wedi'i ddiddymu: bydd rhaid i chi wneud cais unwaith eto i ymuno â'r cynllun o'r cychwyn ac ni allwch werthu'ch anifeiliaid fel anifeiliaid "gwarant fferm". Rhaid dychwelyd eich Tystysgrif Cydymffurfiad Gwarant Fferm QWFC ac unrhyw nodau cynllun i QWFC a rhaid i chi roi'r gorau wedyn i hawlio eich bod yn ardystiedig gan QWFC dan Gynllun FAWL. Mewn achosion difrifol o dorri amodau'r gweithdrefnau safon neu weithredu, neu os yw aelod wedi ymddwyn yn ymosodol tuag at unrhyw berson sy'n rhan o'r broses gwarant fferm, neu os yw'r aelod yn dwyn anfri ar y Cynllun, gallwn dynnu'n ôl ardystiad yn ôl ein disgresiwn diamod. O dan amgylchiadau o'r fath, gall y byddwch yn gorfod aros am gyfnod dynodedig cyn gallu gwneud cais arall.

Os ydych chi'n dymuno apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ynglŷn ag ardystio, byddwch cystal ag ysgrifennu atom yn QWFC, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2WB o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y penderfyniad. Byddwch cystal â rhoi'ch rhesymau dros gredu fod y penderfyniad yn anghywir. Oni allwn ddatrys y mater hwn, bydd tribiwnlys wedi'i benodi gan QWFC yn ystyried yr apêl: bydd gennych hawl i gyflwyno tystiolaeth i'r tribiwnlys hwnnw. Mae manylion llawn am Weithdrefn Apêl QWFC ar gael wrth ffonio 01970 636688.

Dylid anfon unrhyw gŵyn ynglŷn â gweithredu'r system Ardystio gan QWFC i QWFC, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2WB; byddwn yn ymchwilio i bob cwyn ac yn rhoi ateb ysgrifenedig i chi.

Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau - er enghraifft, os yw partneriaid busnes y fferm wedi newid neu os cafodd tir newydd ei brynu. Nid oes modd trosglwyddo tystysgrifau a rhaid gwneud cais o'r newydd os yw perchnogaeth yn newid. Os nad ydych chi'n rhoi gwybod inni am eich holl ddaliadau, gallai olygu bod eich anifeiliaid yn cael eu gwrthod gan ladd-dy. Mewn rhai sefyllfaoedd, os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau, gall y bydd eich ardystiad yn cael ei dynnu'n ôl hyd nes bydd modd cwblhau asesiad a chamau dilynol.

Un o amodau ardystiad yw eich bod yn rhoi gwybod i ni ar unwaith os oes rhywun wedi mynd i gyfraith yn eich erbyn ynglŷn â diogelwch bwyd, lles anifeiliaid neu fater amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys ymchwiliad, erlyniad, neu rybudd statudol gan gorff statudol. Gall y bydd methu rhoi gwybod i ni ar unwaith am hyn yn golygu y bydd eich tystysgrif yn cael ei thynnu'n ôl. Hefyd, gall collfarn sy'n deillio o weithred o'r fath olygu y bydd eich statws ardystiedig yn cael ei dynnu'n ôl.

Un o amodau ein hachrediad gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Gyfunol yw eich bod yn cofnodi unrhyw gwynion a dderbynnir gan eich cwsmeriaid, gan gynnwys cyflwr y da byw neu bryderon amgylcheddol. Bydd y cofnod hwn a'r camau a gymerir yn rhan o asesiad QWFC.

**Gwybodaeth bellach**

I gael copi o holl Reoliadau'r Cynllun a manylion pellach ynglŷn â gweithredu Cynllun FAWL a Gweithdrefn Ardystio QWFC, byddwch cystal ag ymweld â'n gwefan www.fawl.co.uk neu fe allech gysylltu â ni'n uniongyrchol ar 01970 636688.

**Datganiad o Bolisi**

Mae QWFC yn ymrwymo i weinyddu Cynllun FAWL a'i gyfleusterau ardystio yn effeithiol ac effeithlon drwy'r amser. Fodd bynnag, ni ellir ein dal yn gyfrifol am unrhyw golledion a all ddeillio o, gan gynnwys heb gyfyngiad, unrhyw weithred ddiwydiannol neu fethiant unrhyw beiriant, data, system brosesu, dolen drosglwyddiad neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i'n rheolaeth resymol.

Gall Safonau'r Cynllun newid gydag amser – er enghraifft mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig. Cewch wybod am unrhyw newidiadau i Safonau'r Cynllun a chyfnod eu gweithredu, a rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw newidiadau i Safonau'r Cynllun a deddfwriaeth berthnasol er mwyn cadw statws gwarant. Mae Safonau'r Cynllun a Rheoliadau'r Cynllun yn ychwanegol at unrhyw ofynion statudol. Ni chyfrifir bod unrhyw beth yn Safonau'r Cynllun neu Reoliadau'r Cynllun yn rhoi unrhyw eithriad o'r ddeddfwriaeth a rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gwmpas Cynllun FAWL drwy'r amser. Ni fydd FAWL, QWFC, eu gweithwyr neu asiantau o dan unrhyw amgylchiadau yn gyfrifol am unrhyw golledion, difrod, taliadau, costau neu dreuliau o ba natur bynnag (gan gynnwys colled ddilynol) y gallech ei ddioddef neu ei achosi oherwydd, neu'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o weinyddiaeth FAWL, QWFC, eu gweithwyr neu asiantau neu berfformiad eu rhwymedigaethau mewn cysylltiad â Chynllun FAWL ac eithrio i'r graddau fod y cyfryw golled, difrod, taliadau, costau a/neu dreuliau yn deillio o esgeulustod garw wedi'i bennu'n derfynol a chyfreithiol neu ddiffyg bwriadol y cyfryw bersonau.

Mae Cynllun FAWL yn cadw'r hawl i newid Safonau'r Cynllun a gweithdrefnau gweithredu os yw, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, yn ystyried fod rhaid gwneud hynny. Mae Safonau'r Cynllun a Rheoliadau'r Cynllun a Llawlyfr y Cynhyrchwr yn cynrychioli'r ddealltwriaeth lwyr rhyngoch chi a FAWL ac rydych yn cydnabod nad ydych wedi dibynnu ar unrhyw ddatganiad arall (ysgrifenedig neu lafar) wrth wneud cais i gael eich ardystio i Safonau'r Cynllun.

## Adran 1: Diogelwch Bwyd

Mae diogelwch y bwyd rydym yn ei fwyta o bwysigrwydd pennaf ac mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynhyrchu, paratoi a marchnata bwyd er mwyn gwarantu cywirdeb eu rhan yn y gadwyn fwyd. I'r perwyl hwnnw, rhaid i aelodau FAWL wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a ganlyn sy'n berthynol i ddiogelwch bwyd. **Mae'r rhesi wedi'u marcio â'r llythyren 'G' yn cyfeirio at safonau sy'n berthynol i wartheg, ac mae 'D' yn cyfeirio at safonau defaid; mae 'GD' yn cyfeirio at y ddwy rywogaeth. Mae safonau â '🔑' yn dynodi os yw asesydd fferm yn cael hyd i ddiffyg cydymffurfio difrifol yn ymwneud â'r safon honno, gall ardystiad gael ei ohirio hyd nes bod y camau cywirol wedi'u cwblhau**

| | | | Gofyniad | Nodyn Canllaw<br>*Sail Resymegol* |
|---|---|---|---|---|
| **1. Symud Da Byw ac Olrheinedd** | ***Gwneud yn siŵr fod modd olrhain yr holl dda byw sydd i'w bwyta gan bobl yn ôl drwy'r gadwyn gynhyrchu*** | | | |
| Tagio Gwartheg a Phasbortau | 1a<br>🔑 | Gwartheg (G) | Rhaid i bob llo gael ei dagio'n ddwbl a rhaid gwneud cais am basbort oddi mewn i'r terfyn amser a bennir gan BCMS. Rhaid cadw pasbortau mewn lle diogel.<br>Terfynau amser:<br>Lloi llaeth – y tag cyntaf o fewn 36 awr, yr ail dag o fewn 20 niwrnod<br>Lloi cig eidion – y ddau dag o fewn 20 niwrnod.<br>Ceisiadau pasbort – O fewn 27 diwrnod i enedigaeth. | Cyfeiriwch at Lawlyfr Ceidwaid Gwartheg BCMS am derfynau amser a manylion llawn am rwymedigaethau'r ceidwad.<br>*I sicrhau bod modd adnabod pob llo sy'n cael ei eni yng Nghymru.* |
| Cofrestr Buchesi Gwartheg | 1b<br>🔑 | G | Rhaid cofnodi a chofrestru geni, symud a marwolaeth yr holl wartheg gyda BCMS yn unol â gofynion deddfwriaeth gyfredol Cymru, y DG a'r UE. Rhaid cadw cofrestr buchesi ar y fferm yn unol â gofynion deddfwriaeth gyfredol Cymru, y DG a'r UE. | Cyfeiriwch at Lawlyfr Ceidwaid Gwartheg BCMS am derfynau amser a manylion llawn am rwymedigaethau'r ceidwad.<br>Argymhellir eich bod yn defnyddio llyfr cofnodi addas megis Cofrestr Buchesi Gwartheg Llywodraeth Cymru neu becyn meddalwedd cyfrifiadurol<br>*Er mwyn gallu olrhain pob anifail buchol drwy system gynhyrchu'r fferm.* |
| Tagio Defaid a'u Hadnabod | 1c<br>🔑 | D | Rhaid bod modd adnabod yr holl ddefaid sy'n cael eu geni ar ddaliad yn unol â deddfwriaeth yr UE, y DG a Chymru. Rhaid bod modd adnabod ŵyn trwy dagio (neu ffordd gymeradwy arall) cyn eu symud oddi ar eu daliad geni neu cyn iddynt gyrraedd 6 mis oed (os cânt eu rheoli'n ddwys) neu 9 mis (os cânt eu rheoli'n llai dwys). | Gofyniad statudol – Cyfeiriwch at Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009. Cyfeiriwch hefyd at Arweiniad i Geidwaid – Rheolau ar gyfer Adnabod Defaid a Geifr, Ionawr 2010. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.<br>*Er mwyn hwyluso system o olrhain defaid yn ôl i'w fferm enedigol* |
| Cofnod Diadelloedd Defaid | 1d<br>🔑 | D | Rhaid cadw cofrestr diadelloedd ar y fferm yn unol â gofynion deddfwriaeth gyfredol Cymru, y DG a'r UE. Rhaid gwneud rhestr bob blwyddyn o'r defaid oedd ar ddaliadau ar 1 Ionawr. Rhaid cofnodi'r holl fanylion am adnabod, marwolaethau a symud<br>**Manylion Adnabod** – O fewn 36 awr i dagio neu ddull cymeradwy arall (yn unol â 1c uchod)<br>**Marwolaethau** – O fewn 36 awr i ddarganfod marwolaeth. Rhaid i'r cofnod gynnwys y dull o waredu'r carcas a manylion adnabod perthnasol.<br>**Symud** – O fewn 36 awr i'r symud (neu 48 awr os defnyddir Pwynt Cofnodi Canolog): rhaid i'r manylion gynnwys y dyddiad ynghyd â nifer y defaid a'u manylion adnabod, eu ffynhonnell a'u cyrchfan. | Cyfeiriwch at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru - Arweiniad i Geidwaid – Rheolau ar gyfer Adnabod Defaid a Geifr, Ionawr 2010 (Adran Pedwar)<br>Argymhellir defnyddio llyfr cofnodion addas megis Llyfr Cofnodion Defaid a Geifr neu becyn meddalwedd cyfrifiadurol Llywodraeth Cymru<br>*Er mwyn sicrhau olrheinedd yr holl ddefaid trwy system gynhyrchu'r fferm.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Symud Defaid | 1e 🔑 | D | Rhaid defnyddio dogfennau symud i hysbysu'r awdurdod lleol am holl symudiadau defaid i'r daliad ac oddi arno o fewn tridiau i'r symud.<br>Rhaid i'r rhain gynnwys rhifau adnabod unigol os yn berthnasol | *Er mwyn gallu olrhain yr holl symud defaid.* |
| Da byw wedi'u prynu | 1f | GD | Rhaid i'r holl dda byw dreulio cyfnod penodol cyn eu lladd ar fferm wedi'i chofrestru o dan gynllun gwarant fferm cydnabyddedig. Mae modd rhannu'r cyfnod hwnnw rhwng mwy nag un fferm warant. Y cyfnodau penodol yw:- Gwartheg Cig Eidion 90 niwrnod a Defaid 60 niwrnod. | Mae'n well prynu ond o ddaliadau gwarant fferm.<br>*Er mwyn cynnal hyder y cwsmer, mae'n bwysig nad oes modd dod ag anifeiliaid heb warant i ddaliad un diwrnod a'u gwerthu fel anifeiliaid Gwarant Fferm y diwrnod canlynol.* |
| Gwerthu anifeiliaid stôr | 1g | GD | Rhaid i ddogfennau a gyflenwir gyda da byw stôr a magu sy'n cael eu gwerthu i gynhyrchwr arall gynnwys tystiolaeth o ardystiad FAWL a manylion am unrhyw foddion neu fwydydd meddyginiaethol a roddwyd a chyfnod eu cadw o'r gadwyn fwyd heb ddod i ben. | Cyfeiriwch at Asiantaeth Safonau Bwyd – Gofyniad Gwybodaeth Gadwyn Fwyd.<br>*Perygl y gallai'r sawl sy'n pesgi'r anifeiliaid anfon anifeiliaid i'w lladd heb wybod fod y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd yn dal mewn grym.* |
| **2. Defnyddio Meddyginiaethau yn Ddiogel** | ***Er mwyn gwneud yn siŵr fod meddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n gyfrifol, call a phriodol fel nad oes perygl i ddiogelwch bwyd*** | | | |
| Meddyginiaethau wedi'u rheoli | 2a 🔑 | GD | Rhaid i feddyginiaethau sy'n cael eu rheoli gan yr Arolygiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) ddod oddi wrth gyflenwyr awdurdodedig yn unig. Ni ellir cael cynhyrchion yng nghategori POM-V ond gan filfeddyg neu fferyllydd ond gall y rhai yng nghategori POM-VPS gael eu cyflenwi hefyd gan Berson â Chymwysterau Priodol (SQP). Rhaid i'r holl gynwysyddion fod â label bresgripsiwn gan y cyflenwr sy'n rhoi manylion adnabod y fferm lle caiff y meddyginiaethau eu defnyddio. | Mae Person â Chymwysterau Priodol wedi derbyn hyfforddiant ac wedi'i gofrestru, ac fel arfer bydd yn gweithio o adeilad cyflenwadau amaethyddol.<br>*Er mwyn galluogi monitro cyflenwi a defnyddio'r holl gynhyrchion wedi'u rheoli. Perygl o feddyginiaethau yn cael eu defnyddio'n amhriodol neu anghyfreithlon.* |
| Defnydd anaddas neu anghyfreithlon o feddyginiaethau | 2b 🔑 | GD | Mae'n drosedd i ddefnyddio neu fod â chynhyrchion heb eu hawdurdodi yn eich meddiant oni bai y cawsant eu rhoi'n gyfreithlon ar bresgripsiwn gan filfeddyg. | *Perygl o feddyginiaeth anaddas neu anghyfreithlon yn halogi cynhyrchion cig.* |
| Cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd | 2c 🔑 | GD | Rhaid i bob cynhyrchwr da byw ddangos fod camau'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr nad oes unrhyw anifeiliaid sydd wedi cael triniaeth feddyginiaethol yn cael eu hanfon i'r lladd-dy cyn i gyfnod eu cadw o'r gadwyn fwyd ddod i ben. | Cyfeiriwch at Asiantaeth Safonau Bwyd – Gofyniad Gwybodaeth Gadwyn Fwyd.<br>*Perygl bod olion meddyginiaethau mewn cynhyrchion cig* |
| Adnabod anifeiliaid a gafodd driniaeth | 2d 🔑 | GD | Rhaid bod modd i'r holl anifeiliaid a gafodd eu trin gael eu hadnabod yn hawdd drwy gydol y cyfnod statudol i'w cadw o'r gadwyn fwyd sy'n berthynol i'r feddyginiaeth a roddwyd. Rhaid cofnodi nifer yr anifeiliaid a gafodd eu trin a sut mae modd eu hadnabod. | Rhaid defnyddio system o nodi grwpiau â lliw penodol, cofnodi anifeiliaid unigol trwy gyfrwng tagiau neu ffordd arall o adnabod anifeiliaid yn rhwydd.<br>*Perygl o anifail yn cael ei ladd trwy amryfusedd cyn diwedd cyfnod ei gadw o'r gadwyn fwyd.* |
| Polisi nodwyddau wedi torri | 2e 🔑 | GD | Rhaid cael gweithdrefn effeithiol i leoli a delio â nodwyddau hypodermig sydd wedi torri wrth drin anifail. | Gweler Cofnod Rheoli Cynllun FAWL (FSMR) – Adran 5(b)<br>*Perygl o gael hyd i wrthrych miniog mewn cig.* |

| 3. Dietau Da Byw | *Gwneud yn siŵr fod yr holl dda byw yn cael dietau iachusol da sydd yn briodol ar gyfer maethiad anifeiliaid sy'n cnoi cil* | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynhwysion a ganiateir | 3a 🔑 | GD | Rhaid i ddietau beidio â chynnwys cynhwysion sydd wedi'u gwahardd dan gyfraith y DG a'r UE rhag cael eu bwydo i anifeiliaid sy'n cnoi cil. Os cynhwysir ychwanegyn bwyd neu feddyginiaeth drwyddedig, rhaid i hynny fod yn unol â deddfwriaeth berthnasol y DG a'r UE. Mae'r defnydd o gyfryngau gwrthficrobaidd ac anabolig (gan gynnwys hormonau) i hybu twf wedi'i wahardd o dan ddeddfwriaeth yr UE. | Ni ddylid bwydo unrhyw gynhyrchion neu sgil-gynhyrchion anifeilaidd (ac eithrio olewau pysgod a chynhyrchion llaeth).<br>Os yw bwydydd â meddyginiaethau yn cael eu bwydo, bydd safonau FAWL 2c a 2d yn berthnasol.<br>*Perygl o glefyd nas rhagwelwyd yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd wrth ddefnyddio bwydydd amhriodol.* |
| Cyflenwr Bwyd Cyfansawdd a Chymysg | 3b 🔑 | GD | Rhaid i fwydydd cyfansawdd neu gymysg ddod oddi wrth fasnachwr neu wneuthurwr sy'n ardystiedig â Chynllun Gwarantu Bwydydd AIC fel UFAS neu gynllun sydd â safon gyfwerth gytunedig. | Dylai hyn gynnwys mwynau, blociau bwyd, ychwanegion a llaeth gwneud.<br>*Gwneud yn siŵr fod yr holl gynhyrchion yn cynnwys ond cynhwysion awdurdodedig.* |
| Ffynonellau bwyd eraill | 3c 🔑 | GD | Rhaid i'r holl ddefnyddiau bwyd eraill sy'n dod o'r tu allan i'r fferm naill ai ddod oddi wrth fasnachwr bwyd cofrestredig UFAS/ FEMAS, masnachwr grawn wedi'i gofrestru gan TASCC neu fferm warant arall neu os ydynt yn dod o ffynhonnell heb warant, rhaid cael datganiad o sicrwydd derbyniol ar eu cyfer. | Gweler Cofnod Rheoli Cynllun FAWL Adran (6) i gael fformat derbyniol ar gyfer datganiad o sicrwydd.<br>*Gwneud yn siŵr fod yr holl gynhyrchion yn cynnwys ond cynhwysion wedi'u hawdurdodi ac na fyddant yn gadael unrhyw olion annymunol mewn cig neu gynhyrchion cig.* |
| Cymysgu Cartref | 3d | GD | Rhaid i gymysgwyr cartref fod wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod perthnasol. Rhaid i gymysgu cartref fod yn unol â Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Bwydo ar y Fferm. (**www.redtractor.org.uk**) | Cofrestru gyda Safonau Masnachu Awdurdod Lleol oni bai fod y cymysgu'n cynnwys cynhyrchion POM-VPS sy'n ymofyn cofrestru gyda'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. |
| Defnyddio Plaleiddiaid | 3e 🔑 | GD | Wrth ddefnyddio cemegau diogelu cnydau ar gnydau neu borfwyd a fydd yn cael eu bwydo i dda byw, rhaid cydymffurfio ag argymhellion y gwneuthurwr a'r amodau statudol ar gyfer pob cynnyrch. Rhaid cadw'r cofnodion statudol bob tro y caiff plaleiddiad ei ddefnyddio | *Cyf:* Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion<br>*Rheoli'r risg o olion plaleiddiaid mewn bwydydd anifeiliaid sy'n cael eu tyfu gartref.* |
| Datganiad cynhwysion bwydydd | 3f | GD | Rhaid i feintiau a chynhwysion yr holl fwydydd, un ai wedi'u cymysgu gartref neu wedi'u prynu, gael eu cofnodi a rhaid cadw'r manylion am o leiaf ddwy flynedd o'r dyddiad diwethaf y cafodd y cynnyrch ei fwydo. | Cadwch gopïau o labeli'r gwneuthurwr a'r dogfennau cyflenwi.<br>Cadwch daflenni dydd bwyd cymysg cartref.<br>*Er mwyn gallu adnabod anifeiliaid sydd wedi bwyta cynhyrchion bwyd penodol ac a allai, yn ddiweddarach, gael eu hamau o achosi problemau iechyd.* |
| Storio Bwyd | 3g 🔑 | GD | Rhaid storio, trafod a rheoli pob bwyd mewn ffordd sy'n ei gadw'n lân, heb ei halogi ac mewn cyflwr ffisegol da. Rhaid cael polisi o gynnal glendid yr holl fannau storio bwyd a chyfarpar trafod. | Cyfeiriwch at God Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Bwydo ar y Fferm **www.redtractor.org.uk** Gweler 9n hefyd.<br>*Er mwyn sicrhau cywirdeb yr holl fwydydd sy'n cael eu bwydo i dda byw ac felly diogelwch y cig a'r cynhyrchion cig sy'n cael eu gwerthu.* |
| Chwistrellwyr Cnydau | 3h | GD | Rhaid i gyfarpar chwistrellu plaleiddiaid ar wahân i chwistrellwyr cefn neu chwistrellwyr llaw gael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr fod y plaleiddiad yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac effeithlon. | Rhaid i chwistrellwyr gael eu cynnal a'u cadw'n iawn a rhaid cadw cofnodion gwaith cynnal a chadw a graddnodi am o leiaf ddwy flynedd – Gweler Cofnod Rheoli Cynllun FAWL Adran (12)<br>*Gofyniad cyfreithiol* |

Producer Manual_Welsh 09/10/2011 10:06 Page 7

| **4. Mynediad gan Dda Byw i Gynhyrchion a allai fod yn Wenwynig** | | | | ***Er mwyn diogelu da byw, ac felly'r cig y byddwn yn ei fwyta, rhag crynodiad o wenwynau a allai fod yn niweidiol*** |
|---|---|---|---|---|
| Storio paent, cadwolion a chemegau | 4a | GD | Rhaid storio paent, cadwolion, diheintyddion a chyfansoddion cemegol eraill allan o gyrraedd anifeiliaid a bwydydd. | *Perygl o fynediad i wenwynau ac amlyncu gwenwynau a allai barhau mewn cig neu gynhyrchion cig.* |
| Y defnydd o baent a chadwolion | 4b | GD | Rhaid peidio â defnyddio paent a chadwolion mewn tai da byw nac o'u hamgylch ac mewn mannau eraill lle mae gan dda byw fynediad. | |

| **5. Defnyddio a storio Achles A Slyri** | | | ***Er mwyn diogelu da byw, ac o'r herwydd y bwyd y byddwn yn ei fwyta, rhag heintiad gan bathogenau a allai fod yn niweidiol*** | |
|---|---|---|---|---|
| Gwasgaru ar dir pori | 5a 🔑 | GD | Rhaid cadw da byw oddi ar dir pori lle gwasgarwyd achles neu slyri hyd nes bod cyfnod priodol wedi mynd heibio. Rhaid bod yna ddigon o dyfiant newydd i alluogi pori heb halogiad. | Gweler 9b<br>Cyf: ADAS: Rheoli Achlesau Da Byw. Llyfryn 2<br>*Perygl o bathogenau yn cael eu hamlyncu gan anifeiliaid sy'n pori, yn enwedig gan anifeiliaid ifainc sy'n fwy agored i niwed. Rhaid hefyd ystyried safbwynt y defnyddwyr a chynnal eu hyder yng nghynnyrch ffermydd Cymru.* |
| Safleoedd Storio Achles | 5b | GD | Rhaid gwneud asesiad risg cyn storio achlesau ar safleoedd sy'n hygyrch i dda byw. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig os yw tail dofednod yn cael eu storio ar y fferm. | *Gweler 9a*<br>*Perygl o bathogenau yn cael eu hamlyncu gan anifeiliaid.*<br>*Mae canfyddiad a hyder y defnyddiwr hefyd yn bwysig.* |
| Llaid Carthion | 5c | GD | Ni ddylid defnyddio llaid carthion ar dir amaethyddol oni chydymffurfiwyd yn llwyr â'r Cod Ymarfer ar gyfer y Defnydd Amaethyddol o Laid Carthion. | Cyfeiriwch at fatrics llaid carthion diogel ADAS |
| Gwastraff Lladd-dai | 5d 🔑 | GD | Ni chaniateir rhoi gwastraff lladd-dai ar dir oni bai fod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordy Milfeddygol wedi dweud ei bod yn ddiogel gwneud hynny. | |

| **6. Glendid Da Byw ar gyfer eu Lladd** | | | ***Er mwyn gallu lladd yn lân a hylan heb berygl o halogi cig â chrwyn neu gnuau wedi baeddu*** | |
|---|---|---|---|---|
| Da byw wedi gaeafu allan | 6a | GD | Rhaid i dda byw sy'n cael eu cadw allan fod â mynediad i orweddfan lân, sych a chysgodol drwy'r amser. Rhaid iddynt fod yn lân wrth gael eu cyflwyno i'w lladd. | Gall na fydd anifeiliaid brwnt yn cael eu derbyn i'w lladd.<br>*Perygl o grwyn neu gnuau wedi baeddu yn halogi carcasau.* |
| Pesgi dan do | 6b | GD | Rhaid i dda byw sy'n cael eu pesgi dan do fod â gorweddfan lân a sych drwy'r amser. Rhaid iddynt fod yn lân wrth gael eu cyflwyno i'w lladd. | Gall na fydd anifeiliaid brwnt yn cael eu derbyn i'w lladd.<br>*Perygl o garcasau'n cael eu halogi.* |

| **7. Polisi Cwynion** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 7a | GD | Mae angen cofnodi'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at y busnes fferm ac sydd â goblygiad diogelwch bwyd. Hefyd, rhaid cael cofnod o sut cafodd y broblem ei datrys ac unrhyw gamau wrth gefn i atal y broblem rhag digwydd eto. | Mae profforma cofnodi cwynion ar gael yn FSMR Adran (3)<br>*Er mwyn atal problemau diogelwch bwyd rhag ailgodi – megis cnuau brwnt yn y lladd-dy, nodwyddau wedi torri mewn carcasau cig eidion, da byw yn cael eu hanfon i'w lladd cyn bod cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn dod i ben.* |

## Adran 2: Iechyd a Lles Anifeiliaid

**Bydd anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ac sydd** (1) yn cael digon o fwyd a dŵr (2) yn gyfforddus ac yn cael eu cysgodi rhag tywydd eithafol (3) yn iach ac wedi'i diogelu rhag clefyd ac anaf (4) yn fodlon eu byd (5) yn gallu ymddwyn yn naturiol **– yn rhoi'r enillion ariannol gorau posibl i'r cynhyrchwr.** Cyfrifoldeb yr holl gynhyrchwyr gwartheg a defaid sydd wedi cofrestru gyda FAWL yw gwneud yn siŵr fod da byw yn cael eu cadw dan amodau sy'n eu cadw'n ffit, iach a heb straen. Bydd cydymffurfio â'r safonau isod sy'n berthynol i iechyd a lles yn golygu y bydd y rhwymedigaeth honno'n cael eu diwallu.
**Mae'r rhesi wedi'u marcio â'r llythyren 'G' yn cyfeirio at safonau sy'n berthynol i wartheg, ac mae 'D' yn cyfeirio at safonau defaid; mae 'GD' yn cyfeirio at y ddwy rywogaeth. Mae safonau â '🔑' yn dynodi os yw asesydd fferm yn cael hyd i ddiffyg cydymffurfio difrifol yn ymwneud â'r safon honno, gall ardystiad gael ei ohirio hyd nes bod y camau cywirol wedi'u cwblhau.**

| | | | Gofyniad | Nodiadau canllaw<br>*Sail Resymegol* |
|---|---|---|---|---|
| **8. Gofal Da Byw** | ***Er mwyn gwneud yn siŵr fod yr holl stocmyn yn gymwys, yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau ac yn gofalu am y da byw sydd dan eu rheolaeth*** | | | |
| Codau Argymhellion Cymru | 8a 🔑 | GD | Rhaid i'r holl dda byw sy'n cael eu ffermio gael eu magu a'u rheoli yn unol â Chodau Argymhellion Cymru ar gyfer Lles Da Byw: Gwartheg a/neu Ddefaid a Rheoliad Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 | Rhaid i holl bersonél y fferm sydd â chyfrifoldebau dros dda byw fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.<br>*Gofyniad cyfreithiol sylfaenol.* |
| Cynllun Iechyd a Lles | 8b 🔑 | GD | Rhaid llunio cynllun iechyd a lles cynhwysfawr ar gyfer yr holl fentrau da byw a rhaid ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhaid i'r cynllun gynnwys adolygiad o withgareddau arferol fel rheolaeth arfilod a pholisi brechu; adolygiad o broblem rheolaidd a thargedau am y flwyddyn ganlynol. | Argymhellir ymgynghori â milfeddyg wrth lunio ac adolygu'r cynllun. Gweler Cofnod Rheoli Cynllun FAWL (FSMR) Adran (7) ar gyfer dogfen cynllun iechyd profforma.<br>**Mae modd llunio cynllun cynhwysfawr ar-lein wrth ddefnyddio'r arf cynllun iechyd ar wefan HCC.**<br>***http://wlbp.healthplan.co.uk*** |
| Cynhwysedd Stocmyn | 8c 🔑 | GD | Rhaid i holl bersonél y fferm sydd â chyfrifoldebau dros dda byw fod yn gymwys ar gyfer yr holl dasgau y mae disgwyl iddynt eu gwneud, a rhaid fod ganddynt yr holl gymwysterau statudol perthnasol. | Dylai personél dibrofiad gael eu goruchwylio drwy'r amser neu dylid eu hyfforddi gan weithiwr cymwys.<br>*Er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddioddefaint diangen i dda byw oherwydd diffyg profiad neu annoethineb.* |
| Cofnodion Hyfforddiant | 8d | GD | Rhaid cofnodi manylion am holl gymwysterau personél fferm a'r holl hyfforddiant a gânt. Rhaid i'r cofnod hwn hyn gynnwys yr holl hyfforddiant ar-fferm. | Mae enghraifft o gofnod hyfforddiant yn FSMR Adran (2)<br>*Er mwyn hwyluso datblygu rhaglen hyfforddiant a gwella gallu cyffredinol personél fferm.* |
| Archwilio da byw yn rheolaidd | 8e 🔑 | GD | Rhaid archwilio'r holl dda byw gan berson cymwys yn rheolaidd, ar adegau sy'n briodol ac yn unol â'r Codau Lles. | Ar y cyfan, dylid gwneud archwiliad unwaith y dydd pan fo'r anifeiliaid y tu allan a dwywaith y dydd pan fyddant dan do.<br>*Er mwyn gwneud yn siŵr nad yw da byw yn dioddef am gyfnod hirfaith oherwydd afiechyd, anaf neu straen.* |
| Ymarfer Milfeddygol | 8f 🔑 | GD | Rhaid i'r fuches neu'r ddiadell fod dan ofal rheolaidd milfeddyg neu bractis wedi'i enwi. | Argymhellir ymweliad blynyddol gan filfeddyg, a all gynnwys adolygu a diweddaru'r cynllun iechyd a lles.<br>*Er mwyn gwneud yn siŵr fod gan y milfeddyg wybodaeth ddigonol am y daliad cyn bod unrhyw ddiagnosis yn cael ei wneud neu feddyginiaethau'n cael eu pennu.* |
| Cwynion | 8g | GD | Rhaid i'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at y busnes fferm ac sydd â goblygiad diogelwch bwyd gael eu cofnodi Hefyd, rhaid cael cofnod o sut cafodd y broblem ei datrys ac unrhyw gamau wrth gefn i atal y broblem rhag digwydd eto. | Mae profforma cofnod cwynion ar gael yng Nghofnod Rheoli Cynllun FAWL (FSMR) Adran (3)<br>*Er mwyn gwneud yn siŵr fod ceidwaid da byw yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i beidio ag esgeuluso lles yr anifeiliaid.* |

| 9. Bioddiogelwch Fferm | *Er mwyn gwneud cyflwyno neu ledaenu clefyd yn llai tebygol* | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Bioddiogelwch Fferm | 9a 🔑 | GD | Rhaid cofnodi Cynllun Bioddiogelwch Fferm a rhaid ei adolygu'n flynyddol. | Mae profforma Cynllun Bioddiogelwch ar gael yn FSMR Adran (7)<br>*Er mwyn datblygu ac arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu statws iechyd y fferm.* |
| Storio achlesau a gwastraff | 9b | GD | Rhaid gwneud asesiad risg cyn caniatáu mynediad i dda byw i fannau lle mae achlesau neu wastraff all-fferm yn cael eu storio. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig os yw achlesau dofednod yn cael eu storio ar y fferm. | Dylid defnyddio ffensys i atal anifeiliaid sy'n pori rhag cael mynediad i storfeydd maes. Mae'n bwysig atal anifeiliaid ifainc yn enwedig rhag cael mynediad i storfeydd achlesau maes.<br>*Perygl lledaenu clefyd.* |
| Defnyddio achlesau | 9c 🔑 | GD | Rhaid cadw da byw oddi ar dir pori lle gwasgarwyd achles neu slyri hyd nes bod cyfnod priodol wedi mynd heibio. Rhaid bod yna ddigon o dyfiant newydd i alluogi pori heb halogiad.<br>Os yw tail dofednod yn cael ei roi ar dir pori, rhaid cadw da byw allan o'r tir am o leiaf fis (chwe mis i anifeiliaid ifainc). Rhaid i gyfarpar gwasgaru, gan gynnwys hwnnw sy'n cael ei ddefnyddio gan gontractwyr, gael ei lanhau cyn gadael y fferm. | Compostiwch dail y buarth cyn ei wasgaru am o leiaf fis, neu 6 mis os yw tail yn cael ei gludo i'r fferm.<br>Cyf: ADAS: Rheoli Achlesau Da Byw. Llyfryn 2<br>*Perygl o bathogenau yn cael eu hamlyncu gan anifeiliaid sy'n pori. Mae hyn yn enwedig o berthnasol ar gyfer anifeiliaid ifainc sy'n fwy agored i niwed.*<br>*Perygl o bathogenau'n cael eu lledaenu rhwng ffermydd gan gyfarpar wedi'i halogi* |
| Anifeiliaid amnewid a stôr sy'n dod i mewn i'r fferm | 9d | GD | Rhaid cymryd gofal wrth ddod â stoc magu amnewid ac anifeiliaid stôr i'r fferm er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn iach ac yn annhebygol o fod yn cario clefyd.<br>Rhaid i'r holl dda byw sy'n dod i mewn o ffynhonnell nad oes ganddi warant fferm gael eu cadw am gyfnod gofynnol cyn cael eu gwerthu fel anifeiliaid gwarant fferm (FAWL).<br>Defaid – 60 niwrnod<br>Gwartheg – 90 niwrnod | Prynwch ond oddi wrth gynhyrchwyr gwarant fferm. Gwiriwch yr hanes meddygol gyda'r gwerthwr cyn ystyried triniaethau dilynol. Cadwch anifeiliaid mewn cwarantin am gyfnod priodol cyn eu cyflwyno i anifeiliaid eraill ar y fferm.<br>*Perygl o gyflwyno clefyd nad oes gan y stoc preswyl ymwrthedd iddo.* |
| Anifeiliaid tac | 9e | GD | Rhaid bod yn ofalus wrth dderbyn anifeiliaid tac o fferm arall neu pan fo anifeiliaid y fferm yn dychwelyd o dac er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn iach a'u hatal rhag dod i gysylltiad â da byw preswyl o'r un rhywogaeth. | Dylid cadw cofnod o'r holl anifeiliaid tac sy'n cael eu cymryd i'r fferm neu su symud oddi arni. Cadwch anifeiliaid mewn cwarantin am gyfnod priodol cyn eu cyflwyno i anifeiliaid eraill ar y fferm.<br>*Perygl o gyflwyno clefyd nad oes gan y stoc preswyl ymwrthedd iddo.* |
| Hurio neu brynu tarw | 9f | G | Rhaid cymryd gofal wrth hurio neu brynu tarw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn iach ac nad yw'n cario clefyd a allai gael ei drosglwyddo i'r fuches breswyl. | Clefydau y gellid eu cyflwyno yw TB, IBR a Leptosbirosis.<br>*Perygl o gyflwyno clefyd heintus neu glefyd a drosglwyddir yn rhywiol i'r fuches breswyl.* |
| Prynu neu fenthyca hwrdd | 9g | D | Rhaid cymryd gofal wrth brynu neu fenthyca hyrddod er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn iach ac nad ydynt yn cario clefyd neu ectoparasitiaid fel y clafr a allai gael eu trosglwyddo i'r ddiadell breswyl. | *Perygl o gyflwyno clefyd heintus neu ectoparasitiaid i'r ddiadell breswyl.* |
| Cyfleuster arwahanu | 9h | GD | Rhaid gwneud darpariaeth briodol ar gyfer unrhyw anifail a allai fod ag angen ei ynysu neu ei arwahanu oddi wrth anifeiliaid eraill oherwydd afiechyd, anaf neu gwarantin. | Yn ddelfrydol, dylai lloc fod â gofod awyr ar wahân, ond, yn sicr ni ddylai ganiatáu cyffyrddiad corfforol ag anifeiliaid holliach.<br>*Er mwyn lleihau lledaeniad afiechyd neu er mwyn galluogi anifeiliaid ag afiechyd neu wedi'u hanafu i fod yn gyfforddus a chael llonyddwch wrth wella.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Stoc Trig | 9i | GD | Rhaid gwaredu Stoc Trig yn ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Rhaid cadw cofnodion am farwolaethau a gwarediadau. | Mae'r Ddeddfwriaeth Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn darparu'r gofyniad statudol. |
| Glanweithdra a diheintio | 9j | GD | Rhaid cadw tai anifeiliaid a'n mannau storio bwyd yn lân. Rhaid i'r holl gyfarpar rheoli da byw fod yn lân a hylan. | Ar ôl glanhau, defnyddiwch ddiheintydd cymeradwy neu galch. *Perygl o bathogenau yn crynhoi mewn adeiladau ac ar gyfarpar wyna a lloia.* |
| Glendid cerbydau | 9k 🔑 | GD | Rhaid i gerbydau a ddefnyddir i gludo anifeiliaid gael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. | Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) 2003. *Perygl o ledaenu haint heintus trwy gerbydau wedi'u halogi.* |
| Hylendid Ymwelwyr | 9l | GD | Rhaid cael cyfleusterau diheintio ar y fferm i'r holl ymwelwyr a'u cerbydau a fydd yn cael mynediad i'r lle mae da byw yn cael eu cadw. | Baddon traed neu faddon ar olwynion mewn man priodol wrth y fynedfa i'r lle mae da byw yn cael eu cadw. *Perygl o gyflwyno defnydd heintus ar esgidiau ymwelwyr neu ar olwynion eu cerbydau.* |
| Rheoli Plâu/Fermin | 9m 🔑 | GD | Rhaid cael polisi rheoli plâu a fermin sy'n effeithiol o ran atal halogi'r holl fwydydd a mannau bwydo'r da byw, yn enwedig rhag ysgarthion mamaliaid, adar a phryfed. | Dylai'r polisi gael ei gofnodi a'i weithredu'n briodol. Gweler FSMR Adran (4) *Perygl clefyd fel Tocsoplasmosis.* |
| Dilyngyru cŵn a chathod | 9n | GD | Rhaid i'r holl gŵn a chathod ar y fferm gael eu dilyngyru'n rheolaidd yn unol â chyngor milfeddygol a rhaid cofnodi'r driniaeth. | Dylid defnyddio'r llyfr meddyginiaethau anifeiliaid er mwyn cofnodi triniaeth. *Perygl o glefyd Hydatid yn enwedig.* |
| Storio Bwyd | 9o 🔑 | GD | Rhaid storo bwyd mewn modd sy'n atal mynediad gan adar a mamaliaid. | *Perygl o dda byw'n dal clefydau fel tocsoplasmosis, salmonela neu TB am fod y bwyd yn cael ei halogi wrth gael ei storio.* |
| ***Mae'r tair safon a ganlyn yn argymhellion yn unig:*** | | | | |
| Agosrwydd anifeiliaid cymdogion | 9p | GD | Rhaid bod yn ymwybodol o statws iechyd da byw ar yr holl ffermydd cyfagos. | Symudwch y da byw oddi wrth ffiniau lle mae yna broblem dybiedig. Gosodwch ffensys dwbl os oes problem barhaus. *Perygl o heintio da byw trwy ffensys, neu yfed o gwrs dŵr a gafodd ei heintio ar fferm yn uwch i fyny.* |
| Marwolaethau ac erthyliadau nad oes modd eu hesbonio | 9q | GD | Dylai marwolaethau neu erthyliadau nad oes modd eu hesbonio gael diagnosis gan filfeddyg a dylid cymryd camau priodol. | *Perygl o golledion pellach oni ffydd camau'n cael eu cymryd.* |
| Bwydo gwartheg â chafnau | 9r | G | Dylai dyluniad cafnau bwydo gwartheg a'r defnydd ohonynt ei gwneud yn anodd i foch daear gael hyd i'r bwyd. | Argymhellir cafnau bwyd ar goesau 80cm o uchder. Hefyd, dylid gosod blociau bwyd allan o gyrraedd moch daear. *Perygl o foch daear heintiedig yn halogi cafnau â TB.* |
| **10. Adeiladau a Thrafod** | ***Darparu amgylchedd glân a chyfforddus nad yw'n rhoi straen ar yr holl anifeiliaid dan do*** | | | |
| Tai Da Byw | 10a 🔑 | GD | Rhaid i dai da byw fod wedi'u hadeiladu'n dda a'u cadw mewn cyflwr da. | Dylid archwilio'r adeiladau'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw wrthrychau neu ymylon miniog, na chaeadau archwilio neu loriau wedi torri. Cyf: Codau Argymhellion Cymru ar gyfer Lles Da Byw. *Perygl o anaf i dda byw dan do neu mewn ierdydd* |
| Yn Rhydd Dan Do | 10b | GD | Rhaid i'r holl dda byw sy'n cael eu cadw'n rhydd dan do fod â digon o le i symud ac i arddangos patrymau ymddygiad arferol. | Gweler Atodiad 1 ar gyfer dwysedd stocio priodol. *Perygl y bydd da byw dan do o dan straen mawr a'i holl broblemau cysylltiol.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ierdydd Delltog | 10c | G | Rhaid i wartheg sydd ar fin lloia neu wartheg sy'n llaetha gael mynediad i le sych nad yw'n ddelltog.<br>Rhaid i anifeiliaid ifainc gael mynediad i le nad yw'n ddelltog. | *Darparu lle cyfforddus i'r grwpiau o dda byw sydd fwyaf agored i niwed.* |
| Gwasarn Da Byw | 10d 🔑 | GD | Rhaid i'r holl dda byw dan do gael gorweddfan sych ddigonol â gwasarn priodol pan fo hynny'n briodol. Dylai'r gwasarn hwn beidio â bod yn wenwynig nac anafu da byw a dylai allu cadw da byw yn lân a sych. | *Perygl o anifeiliaid brwnt â lefelau uchel o straen.*<br>*Perygl o anifeiliaid sy'n cnoi cil yn dal clefyd/afiechyd am fod gwasarn amhriodol yn cael ei ddefnyddio.*<br>*Perygl i ddiogelwch y gadwyn cyflenwi bwyd.* |
| Cadw teirw dan do | 10e | G | Os oes lle ar wahân yn cael ei ddarparu i gadw teirw dan do, rhaid iddo fod yn addas ac wedi'i leoli fel ei fod yn caniatáu cysylltiad cymdeithasol rheolaidd â gwartheg eraill. | *Mae gwartheg yn anifeiliaid sy'n mwynhau cwmni a gallant ddioddef os cânt eu hynysu drwy'r amser.* |
| Ciwbiglau | 10f | G | Rhaid i giwbiglau fod o'r dyluniad cywir ar gyfer maint a brid y gwartheg. Hefyd, rhaid iddynt fod mewn cyflwr da a rhaid cael digon o giwbiglau i'r holl wartheg allu gorwedd ar yr un pryd. | Dylid darparu matiau neu wasarn er mwyn atal briwiau neu arrau wedi chwyddo.<br>*Perygl o anifeiliaid brwnt, lefelau uchel o straen, afiechyd a chlefyd.* |
| Lloi Dan Do | 10g | GD | Rhaid gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cadw lloi ifainc dan do.<br>Rhaid i loc unigol alluogi llo i weld lloi eraill ac nl ddylid ei ddefnyddio i gadw llo sydd dros wyth wythnos oed. | Dylai'r amgylchedd fod yn lân a chyfforddus a dylai ganiatáu ymddygiad naturiol. Ni chaniateir ffrwyno na rhwymo.<br>*Mae anifeiliaid a gafodd eu diddyfnu mewn oed annaturiol yn dueddol iawn o ddioddef o straen.* |
| Cyflenwad dŵr | 10h 🔑 | GD | Rhaid i danciau dŵr fod mewn lleoliad da, eu cadw mewn cyflwr da a'u llenwi â dŵr glân.<br>Hefyd, rhai i'r holl dda byw sydd y tu allan fod â chyflenwad da o ddŵr glân drwy'r amser. | Dylid glanhau tanciau yn rheolaidd.<br>*Perygl o berfformiad gwael am nad oes digon o ddŵr yn cael ei gymryd.* |
| Golau | 10i | GD | Rhaid peidio â chadw da byw mewn lleoedd sy'n dywyll neu â golau gwan pan fo golau dydd ar gael. Rhaid cael digon o olau i allu archwilio da byw yn ystod oriau tywyllwch. | Mae golau torsh neu olau cerbyd yn dderbyniol i archwilio anifeiliaid mewn adeiladau diarffordd heb gyflenwad trydan.<br>*Mae cadw anifeiliaid yn y tywyllwch am gyfnodau hir yn annaturiol ac yn arwain at lefelau uchel o straen.* |
| Gosodiadau trydanol | 10j | GD | Rhaid i'r holl osodiadau sy'n derbyn trydan o'r prif gyflenwad ac estyniadau dros-dro fod allan o gyrraedd da byw a chael eu diogelu a'u daearu'n gywir. | *Perygl o dda byw'n marw ar ôl cnoi trwy geblau byw.* |
| Awyru | 10k | GD | Rhaid i adeiladau da byw fod ag awyru digonol i atal lleithder ac anwedd rhag cronni ac i osgoi drafft ar hyd y llawr. | *Perygl o glefyd resbiradol, yn enwedig mewn anifeiliaid ifainc.* |
| Grwpio Cymdeithasol | 10l | G | Dylid cadw gwartheg dan do mewn grwpiau priodol fel nad oes unrhyw fwlio neu ymladd. | Dylid cadw gwartheg corniog ar wahân os ydynt yn ymosodol.<br>*Perygl o anaf oherwydd ymladd a pherfformiad gwael gan y rhai sy'n cael eu hatal rhag mynediad llawn i fwyd.* |
| Cyfleusterau trafod gwartheg | 10m 🔑 | G | Rhaid cael cyfleusterau trafod gwartheg sy'n gymesur â maint a math yr uned gynhyrchu.<br>Rhaid i glwydi, tramwyfeydd a dalfeydd gael eu cynnal a'u cadw'n dda a dylent allu dal gwartheg unigol â chyn lleied o straen a pherygl o anaf â phosibl i anifeiliaid a staff. | Bydd system wedi'i chynllunio'n dda yn gwneud y gwaith arferol o drafod gwartheg yn fwy derbyniol i bawb.<br>*Perygl o lefelau uchel o straen a niwed i wartheg a gweithwyr.* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau trafod defaid | 10n 🔑 | D | Rhaid i gyfleusterau trafod defaid fod ar gael, naill ai ar safle parhaol neu'n symudol, a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r pwrpas. | Bydd system wedi'i chynllunio'n dda yn gwneud y gwaith rheolaidd o drafod defaid yn fwy effeithlon a heb straen. *Mae cyfleusterau da yn galluogi cyflawni'r gwaith gofal rheolaidd yn fwy effeithlon ac effeithiol.* |
| Trin anifeiliaid | 10o 🔑 | GD | Rhaid i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am gadw da byw allu dangos lefel dderbyniol o empathi ac ystyriaeth am eu gofal a lles. | *Ni ddylid caniatáu i unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ddioddef yn ddiangen o boen a straen.* |
| Cyfleusterau ar gyfer Cŵn Fferm | 10p | | Rhaid cadw cŵn fferm mewn lle sydd yn lân a chyfforddus. Os ydynt ar gadwyn, neu dan gyfyngiad arall, rhaid iddynt gael ymarfer o leiaf ddwywaith y dydd. | Dylid cadw cŵn dan reolaeth drwy'r amser. *Mae hyn yn fater o les anifeiliaid sylfaenol.* |
| **11. Bwydo** | ***Er mwyn sicrhau diet priodol a chytbwys sy'n diwallu gofynion naturiol yr anifail*** | | | |
| Maeth anifail | 11a 🔑 | GD | Rhaid i ddiet pob math o dda byw fod yn ddigonol i sicrhau bod y cyflwr corff yn briodol a bod y statws iechyd yn uchel. | *Perygl o berfformiad gwael a lefelau straen uchel gan anifeiliaid sy'n rhy denau neu'n rhy dew.* |
| Porfwyd mewn diet | 11b | GD | Rhaid i ddiet dyddiol yr holl anifeiliaid sy'n cnoi cil gynnwys digon o borfwyd neu fwyd garw er mwyn i'r rwmen allu gweithio'n iawn. | *Perygl o broblemau fel asidosis.* |
| Bwydo yn ystod beichiogrwydd | 11c 🔑 | GD | Yn ystod cyfnod olaf beichiogrwydd ac ar ôl rhoi genedigaeth, rhaid i fuchod a mamogiaid gael eu bwydo a'u rheoli'n briodol. | *Perygl o glwy'r eira, y dwymyn laeth, camesgoriad a phroblemau eraill sy'n berthynol i faeth.* |
| Lloi/ŵyn newydd-anedig | 11d 🔑 | GD | Rhaid i loi ac ŵyn newydd-anedig gael cymeriant digonol o golostrwm, yn ôl eu trefn, o fewn chwe awr ac awr i'w geni, un ai gan y fam neu o ffynhonnell arall. | *Perygl o glefyd y cymalau, cegleithedd neu heintiad arall sy'n deillio o ymwrthedd gwael oherwydd cymeriant annigonol o wrthgyrff.* |
| **12. Meddyginiaethau a Thriniaethau** | ***Er mwyn gwneud yn siŵr fod y triniaethau cywir a gorau posibl yn cael eu darparu i'r holl dda byw sy'n cael eu ffermio*** | | | |
| Anifeiliaid ag afiechyd neu wedi'u hanafu (1) | 12a 🔑 | GD | Rhaid i anifeiliaid sy'n dioddef o afiechyd neu anaf gael sylw ar unwaith. Rhaid galw ar filfeddyg os oes raid. | *Gall diagnosis a thriniaeth gynnar atal dioddefaint diangen ynghyd ag atal clefyd heintus rhag lledaenu.* |
| Anifeiliaid ag afiechyd neu wedi'u hanafu (2) | 12b 🔑 | GD | Os yw anifeiliaid mor wael fel nad oes modd trin eu clefyd neu anaf, rhaid eu trin yn dosturiol a'u lladd heb greulondeb ar y fferm os oes raid | Byddai'n arferol i filfeddyg ymwneud ag achosion o'r fath. *Mae hyn yn fater o les anifeiliaid sylfaenol.* |
| Triniaethau priodol | 12c 🔑 | GD | Ni ddylid defnyddio na chario meddyginiaethau a thriniaethau milfeddygol ond pan fo raid at ddibenion trin neu atal. | *Gall ymwrthedd i wrthfiotigau a llyngyr ddigwydd oherwydd triniaethau diangen ac amhriodol.* |
| Cofnod prynu | 12d 🔑 | GD | Rhaid cadw cofnod prynu cyflawn ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol sy'n cael eu prynu, gan gynnwys (a) Enw'r feddyginiaeth (b) Y dyddiad prynu (c) Faint a brynwyd (d) Manylion y cyflenwr (e) Y Rhif Batsh | Mae Llyfr Meddyginiaethau Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) ar gael ar gais neu ar-lein *Er mwyn galluogi rheoli stoc o ran prynu a defnyddio.* |
| Cofnod triniaeth | 12e 🔑 | GD | Rhaid cadw cofnod triniaeth cyflawn ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol sy'n cael eu gweini i dda byw gan gynnwys (a) Enw'r feddyginiaeth (b) Y dyddiad gweini (c) Manylion adnabod y grŵp o anifeiliaid a gafodd driniaeth (d) Y nifer a gafodd driniaeth (e) Faint o feddyginiaeth gafodd ei gweini i gyd (f) Y dyddiad y daeth y driniaeth i ben (g) Y dyddiad y daeth y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd i ben (h) Enw'r person a fu'n gweini'r feddyginiaeth. **I'w argymell** (i) Y rheswm am y driniaeth. | Mae Llyfr Meddyginiaethau Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) ar gael ar gais neu ar-lein *Er mwyn galluogi monitro'r holl driniaethau da byw.* *Er mwyn galluogi adolygiad o weithdrefnau rheolaidd a chanfod problemau cylchol.* |

Producer Manual_Welsh 09/10/2011 10:06 Page 13

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiadau Defnydd Olaf | 12f | GD | Rhaid peidio â defnyddio meddyginiaethau unwaith y mae'r dyddiadau defnydd olaf wedi mynd heibio. Rhaid eu gwaredu mewn ffordd briodol. | *Gall y bydd diogelwch ac effeithiolrwydd meddyginiaethau sy'n rhy hen fod yn ddiffygiol.* |
| Storio meddyginiaethau | 12g | GD | Rhaid storio meddyginiaethau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac mewn lle diogel. | *Er mwyn atal cynhyrchion rhag dirywio am eu bod yn cael eu cadw mewn ffordd amhriodol a'u diogelu rhag lladrad a phlant.* |
| Storio a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol ar ôl eu defnyddio | 12h | | Rhaid i gynwysyddion meddyginiaethau gwag, nodwyddau wedi'u defnyddio ac eitemau miniog gael eu gwaredu'n ddiogel mewn blwch eitemau miniog ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Mae angen bod â pholisi ar waith ynglŷn â storio a gwaredu eitemau miniog a gwastraff fferyllol. | Gweler FSMR adran (5)(a) ar gyfer polisi ynglŷn â storio a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol wedi'u defnyddio. |
| **13. Materion Rheoli Rheolaidd** | ***Gall esgeuluso gweithdrefnau rheolaidd achosi straen a phoen diangen i anifeiliaid*** | | | |
| Cyplu heb ei gynllunio | 13a | GD | Rhaid i wartheg a defaid heb eu hysbaddu gael eu gwahanu oddi wrth anifeiliaid benyw ifainc cyn iddynt ddechrau ymddwyn yn rhywiol. | *Perygl o gyplu a beichiogi heb eu cynllunio.* |
| Lloia neu wyna anodd | 13b | GD | Rhaid cymryd gofal wrth ddewis tad er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o broblemau lloia/wyna yn ddiweddarach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer heffrod ac ŵyn benyw/blwydd. | Dylid ystyried materion fel brid, maint, cofnodion blaenorol ac EBV ar gyfer anhawster lloia.<br>*Perygl o loia/wyna anodd yn arwain at enedigaethau Cesaraidd neu farwolaethau.* |
| Gaeafu allan – cysgod | 13c | GD | Rhaid i anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn yr awyr agored dros y gaeaf gael mynediad i orweddfan lân sydd â chysgod rhag y gwyntoedd pennaf. | Dylai'r ddarpariaeth hon fod yn briodol i galedwch y brid.<br>*Perygl o achosi anghysur a dioddefaint.* |
| Lloia/wyna allan | 13d | GD | Ni ddylai lloia/wyna allan ddigwydd mewn mannau agored a diarffordd heb gysgod priodol. | Dylai'r ddarpariaeth hon fod yn briodol i galedwch y brid.<br>*Perygl colledion oherwydd hypothermia a gwyliadwriaeth annigonol.* |
| Llawdriniaeth | 13e | GD | Rhaid i lawdriniaethau rheolaidd i dda byw, megis ysbaddu, dadimpio a thocio cynffonnau gael eu gwneud yn unol â deddfwriaeth gyfredol a Chodau Ymarfer Cymru ar gyfer Lles Gwartheg a Defaid. | Gweler Atodiad 2 am y gofynion cyfreithiol ar gyfer llawdriniaethau cyffredin.<br>*Perygl o achosi anghysur a dioddefaint diangen.* |
| Digornio | 13f | GD | Rhaid i ddigornio ddigwydd ond pan fo raid, yn unol â'r gofyniad cyfreithiol ac wrth ddefnyddio anesthetig. | Gweler Atodiad 2.<br>Argymhellir yn gryf fod lloi o oed priodol pan gânt eu dadimpio.<br>*Perygl o achosi poen a dioddefaint diangen.* |
| Magu artiffisial | 13g | GD | Rhaid i loi ac ŵyn a gafodd eu diddyfnu'n gynharach nag arfer gael eu magu yn unol â gofynion deddfwriaeth gyfredol o ran diet, adeiladau, llociau, golau a chludiant. | Gweler Codau Argymhellion Cymru ar gyfer Lles Da Byw. |

| 14. Cludo Da Byw | *Er mwyn lleihau'r straen a'r perygl o anaf wrth gludo da byw* | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth cludiant | 14a 🔑 | GD | Rhaid i bob anifail gael ei gludo yn unol â deddfwriaeth gyfredol a rhaid cael y dogfennau cywir ar gyfer symud neu gyflenwi. | Rhaid i yrwyr fod â'r drwydded statudol gywir ar gyfer y cerbyd a ddefnyddir, ynghyd â thystysgrif cymhwysedd i gludo da byw.<br>Gweler 9c. |
| Halwyr dan gontract | 14b | GD | Rhaid i halwyr da byw sydd dan gontract i'r cynhyrchwr fod yn gyfranogwyr cymeradwy yng Nghynllun Cludo Da Byw ABM neu gynllun cymeradwy tebyg. | *Er mwyn gwneud yn siŵr bod da byw yn cael eu cludo'n ddiogel a chyfreithlon.* |
| Llwytho da byw | 14c | GD | Rhaid llwytho da byw yn ddigynnwrf, mewn ffordd sy'n lleihau straen a'r perygl o anaf i'r anifeiliaid a'r rhai sy'n eu trafod.<br>Rhaid i'r cyfleuster llwytho fod yn ddiogel a phriodol. | Bydd cyfleuster llwytho a gafodd ei gynllunio'n dda yn gwneud y llwytho'n fwy derbyniol i bawb.<br>*Perygl o anaf i dda byw a'r rhai sy'n eu trafod.* |
| Gwasarn cerbyd | 14d | GD | Rhaid i lawr y cerbyd fod wedi'i orchuddio â gwasarn addas pan fo hynny'n briodol. | Gweler Atodiad 3. |
| Cerbydau fferm | 14e 🔑 | GD | Rhaid i gerbydau fferm a ddefnyddir i gludo da byw fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth sy'n cael ei chario, wedi'u hadeiladu yn unol â deddfwriaeth gyfredol ac yn cael eu cynnal mewn cyflwr defnyddiol da. Ar dir gwastad, rhaid i rampiau llwytho ar gyfer gwartheg a defaid fod yn 2.2 waith mor hir ag uchder llawr y cerbyd oddi ar y ddaear, neu deirgwaith ar gyfer lloi. | Rhaid i gerbyd addas fod â digon o uchdwr, lloriau gwrthlithro, dim darnau ymwthiol, digon o awyriad a modd i archwilio'r anifeiliaid o'r tu allan.<br>*Er mwyn gwneud yn siŵr bod da byw yn cael eu cludo'n ddiogel a heb greulondeb.* |
| Dwysedd stocio | 14f | GD | Rhaid i anifeiliaid gael eu cludo yn ôl y dwysedd stocio cywir. Hefyd dylid darparu parwydydd pan fo anifeiliaid o grwpiau cymdeithasol gwahanol yn cael eu cludo, neu pan fo angen cludo llai o anifeiliaid nag arfer a bod rhaid eu cywasgu er mwyn eu diogelu pan fo'r cerbyd yn symud mewn ffordd annisgwyl. | Mae deddfwriaeth gyfredol yn darparu ar gyfer gofynion stocio cerbydau – gweler Atodiad 4.<br>*Perygl o farwolaeth neu anaf oherwydd gorlwytho neu am fod nifer rhy fach gyda'i gilydd.* |
| Anifeiliaid anafus | 14g 🔑 | GD | Ni ddylid cludo anifeiliaid nad ydynt mewn cyflwr digon da oherwydd clefyd, anaf neu am eu bod ar fin lloia neu wyna. Os yw anifeiliaid yn cael eu hanafu wrth gael eu cludo, rhaid mynd â nhw i'r lle addas agosaf i'w dadlwytho neu eu lladd. | Os oes amheuaeth, argymhellir eich bod yn ceisio cyngor milfeddygol cyn cludo anifeiliaid nad ydynt yn holliach.<br>Gweler canllawiau Defra ynglŷn â chludo anifeiliaid anafus.<br>*Mae hyn yn fater o les anifeiliaid sylfaenol.* |

Producer Manual_Welsh 09/10/2011 10:06 Page 15

## Adran 3: Diogelu'r Amgylchedd

Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl reolwyr tir yng Nghymru i wneud yn siŵr nad yw'r arferion ffermio yn amharu ar nac yn llygru amgylchedd y fferm, **y dŵr (D), pridd (P) ac aer (A)**. Hefyd, rhaid cymryd gofal o'r ardaloedd o gynefin naturiol a rhaid bod yn ymwybodol o effeithlonrwydd cynnyrch y fferm o ran allyriadau carbon. **Mae safonau â '🔑' yn dynodi os yw asesydd fferm yn cael hyd i ddiffyg cydymffurfio difrifol yn ymwneud â'r safon honno, gall ardystiad gael ei ohirio hyd nes bod y camau cywirol wedi'u cwblhau.**

| **15.** | | | Gofyniad | Nodiadau canllaw<br>*Sail Resymegol* | COGAP Cyf. |
|---|---|---|---|---|---|
| Golwg gyffredinol | 15a 🔑 | | Rhaid i amgylchoedd y fferm gael eu cadw'n resymol o daclus a glân. | Rhaid i ffermydd sy'n perthyn i gynllun FAWL ymddangos yn daclus a glân.<br>*Er mwyn cyflwyno delwedd bositif o'r cynllun a ffermio yng Nghymru i gwsmeriaid, defnyddwyr a'r cyhoedd.* | |
| Mynediad i Godau Ymarfer Amaethyddol Da, Cymru | 15b | | Rhaid i bob rheolwr tir yng Nghymru gael mynediad i, a glynu wrth, y Codau Ymarfer Amaethyddol Da i Ddiogelu Dŵr, Pridd ac Aer a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. | Mae'r rhifau cyfeirnod yn y golofn nesaf yn cyfeirio ar y paragraffau perthnasol ar gyfer pob safon. | |
| Cymhwysedd personél | 15c 🔑 | | Rhaid i holl staff y fferm a chontractwyr fod yn ymwybodol o sut gallai llygredd ddigwydd a rhaid iddynt fod â dealltwriaeth dda o'r holl gynlluniau rheoli perthnasol. | Sicrhau hyfforddiant digonol i'r holl bersonél perthnasol a chadw cofnodion hyfforddiant.<br>*Gallai gweithredwr dibrofiad neu heb gymwysterau priodol gychwyn digwyddiad o lygredd yn anfwriadol.* | 2.2.4 |
| **16. Cynlluniau rheoli** | | | | | |
| Cynllun Rheoli Pridd | 16a 🔑 | DP | Rhaid cael cynllun rheoli pridd sy'n dangos caeau a allai ddioddef oherwydd cywasgu, erydu neu broblemau goferiad ac sy'n esbonio sut i leihau eu difrod. | Gofyniad croesgydymffurfio<br>*Perygl o oferiad o'r pridd yn cyrraedd cyrsiau dŵr neu ffyrdd.* | 2.2.1 |
| Cynllun Rheoli Achles | 16b 🔑 | DPA | Rhaid i aelodau FAWL leihau'r perygl o lygredd o achles, slyri, defnydd organig arall neu bathogenau. Rhaid i bob fferm gael Cynllun Rheoli Achles a'i roi ar waith. Rhaid i gyfleusterau storio achles/slyri fod yn ddigonol a rhaid i gaeau fod yn addas ar gyfer gwasgaru achles/slyri. Bydd Cynllun Rheoli Tail Buarth yn dangos ymrwymiad i leihau llygredd a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da. | Argymhellir map o'r fferm â chodau lliw. Cyfeiriwch at Lyfr Cofnodion Rheoli Cynllun FAWL adran (8)<br>*Defnyddir y Cynllun Rheoli Tail Buarth i ddangos ymwybyddiaeth a gwybodaeth y ffermwr ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â diogelwch amgylcheddol ac i hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth i fferm y staff a chontractwyr.* | 2.2.1 |
| Polisi rheoli maetholion | 16c | DP | Rhaid i aelodau FAWL ddangos ymwybyddiaeth o'r amodau a chyfyngiadau ynglŷn â defnyddio gwrteithiau a chalch. Dylai'r holl wrtaith ac achles sy'n cael eu rhoi i'r tir fod yn unol â pholisi sy'n ceisio lleihau gorddefnyddio a cholli gwrteithiau artiffisial sy'n grynodedig a hydawdd dros ben. Gall datblygu a defnyddio Cynllun Rheoli Maetholion ddangos ymrwymiad i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o wrteithiau a lleihau'r risg o lygredd oherwydd gorddefnyddio maetholion. | *Er mwyn cyfyngu'r perygl o drwytholchiad nitradau.*<br>*Er mwyn atal ffosfforws rhag crynhoi yn y pridd.*<br>*Er mwyn lleihau'r perygl o ocsid nitrus yn cael ei golli i'r atmosffer.* | 2.2.1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu cnydau | 16d | DPA | Pan fo plaleiddiaid yn cael eu defnyddio, rhaid cofnodi cynllun diogelu cnydau. Rhaid cadw cofnod o'r holl ddefnydd o blaleiddiaid ar gnydau a thir glas. | Mae plaleiddiaid yn y cyswllt hwn yn cynnwys chwynladdwyr a ffwngleiddiaid. Gweler FSMR Adran (9). | 2.2.1 |
| Damweiniau ac achosion brys | 16e | DPA | Rhaid paratoi asesiad risg a chynllun gweithredu a'u rhoi i holl staff y fferm. Rhaid i'r dogfennau hyn gynnwys yr holl rifau ffôn perthnasol i'w defnyddio mewn argyfwng. | Cyfeiriwch at FSMR Adran (1). *Pe ceid damwain neu ddigwyddiad a allai achosi llygredd, gallai ymateb cyflym a chywir helpu i atal y sefyllfa rhag gwaethygu.* | 2.2.3 |
| Cwynion | 16f | DPA | Rhaid i'r holl gwynion sy'n cael eu cyfeirio at y busnes fferm ac sydd â goblygiad amgylcheddol gael eu cofnodi. Hefyd, rhaid cael cofnod o sut cafodd y broblem ei datrys ac unrhyw gamau wrth gefn i atal y broblem rhag digwydd eto. | Mae profforma cofnod cwynion ar gael yng Nghofnod Rheoli Cynllun FAWL (FSMR) Adran (3) Bydd yn cynnwys unrhyw gŵyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru neu unigolion. *Er mwyn atal digwyddiadau a allai lygru rhag digwydd eto. Mae hyn yn cynnwys slyri yn llifo i mewn i gyrsiau dŵr a mwg yn amgylchu ardal breswyl.* | |
| Gwaredu gwastraff anorganig | 16g | | Rhaid cael dogfen sy'n cynnwys polisi ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n fioddiraddadwy. | Gweler FSMR Adran (10). | 7.2 |

| **17. Cyfleusterau storio** | ***Er mwyn lleihau'r perygl o lygredd amgylcheddol drwy storio llygryddion yn anniogel*** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Slyri, dŵr brwnt, elifion silwair | 17a 🔑 | DA | Rhaid cadw'r holl wastraff fferm sy'n hylifol ac organig mewn storfeydd anathraidd wedi'i hadeiladu i'r pwrpas hwnnw ac sy'n ddigon mawr i gydymffurfio â chynllun rheoli achles y fferm. Rhaid iddynt fod o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ffos, draen tir neu gwrs dŵr oni bai fod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cytuno fel arall, yn ysgrifenedig. | Gweler 16b. *Er mwyn atal llygredd amgylcheddol oherwydd storio anniogel.* | 3.1.3<br>3.2.2<br>3.2.4 |
| Achlesau solet | 17b | DPA | Rhaid i storfeydd achles parhaol fod â sail anathraidd a modd i gasglu goferiad.<br>Rhaid i gladdau maes dros-dro gael ei hail-leoli bob blwyddyn. Rhaid i'r holl storfeydd fod o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ffos, draen tir neu gwrs dŵr. | Gweler 16b. *Er mwyn atal llygredd amgylcheddol oherwydd storio anniogel. Bydd defnydd parhaus o'r un safle maes yn cynyddu'r perygl o elifion yn trwytholchi i ddŵr.* | 3.2.4 |
| Olew tanwydd | 17c | D | Rhaid i danciau sy'n gallu storio cyfanswm o dros 1500 litr o olew tanwydd neu'r tir oddi amgylch fod â bwnd nad yw'n gollwng ac sy'n gallu cynnwys 10% yn fwy na'r hyn y mae'r holl danciau'n gallu cynnwys. Hefyd, rhaid cadw'r holl bibellau dan glo oddi mewn i'r bwnd pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Rhaid cael cyfleusterau brys – megis bwcedaid o dywod neu ronynnau amsugnol neu, yn ddelfrydol, fwnd digonol – i ddelio â gollyngiadau damweiniol. | Hysbysir Asiantaeth yr Amgylchedd ar unwaith am unrhyw danwydd sydd wedi gollwng. *Er mwyn dal unrhyw ollyngiad sy'n digwydd os yw tanc yn cael ei ddifrodi neu os yw'r tap heb ei ddiffodd trwy amryfusedd.* | 3.1.3 |
| Plaleiddiaid, cemegau, dipiau | 17d 🔑 | D | Rhaid storio plaleiddiaid a chemegau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion, a storio dip defaid yn unol â'r Cod Diogelu Dŵr Daear – Defnyddio a Gwaredu Cyfansoddion Dip Defaid. Dylai'r stôr gael ei gloi a'i fwndio a dylai fod ffordd hawdd ei adnabod ar y tu allan. | *Er mwyn atal gollyngiad neu ddifrod damweiniol i gynwysyddion a allai olygu tryddiferu i mewn i ddraeniau'r fferm.* | 3.1.6 |

Producer Manual_Welsh 09/10/2011 10:06 Page 17

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrteithiau artiffisial | 17e 🔑 | D | Rhaid storio gwrteithiau artiffisial mewn ffordd gyfrifol a diogel a dylid gwneud cyfrifiad stoc yn rheolaidd. Rhaid i'r storfa fod o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr neu ddraen. Argymhellir defnyddio'r rhestr wirio yn FSMR (Adran 11). | Gweler Atodiad 5 ac FSMR Adran (11).<br>*Perygl o gynnyrch yn cael ei ddwyn. Gallai glaw fynd i mewn i fagiau sy'n cael eu storio y tu allan, ac achosi hydoddiant crynodedig i lifo allan.* | 3.1.7 |
| Gwastraff fferm | 17f | D | Rhaid i wastraff fferm nad yw'n fioddiraddadwy gael ei storio mewn lle dynodedig sy'n ddiogel, hyd nes bod modd ei waredu'n briodol. | Gweler 19a, 19c, 16f.<br>*Mae cynnyrch gwastraff yn llai o berygl i'r amgylchedd os yw'n cael ei gadw mewn lle dynodedig.* | 7.1.1 |
| **18. Rhoi ar y tir** | ***Er mwyn lleihau'r perygl o lygredd amgylcheddol wrth roi gormod ar gaeau, eu rhoi ar adeg anghywir neu ar gaeau amhriodol – gweler hefyd Atodiad 7*** | | | | |
| Slyri, dŵr brwnt, elifion silwair | 18a 🔑 | DPA | Rhaid rhoi'r rhain ar dir mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o lygredd dŵr, aroglau annerbyniol neu gywasgu pridd. Ni ddylid eu rhoi o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ffos a 50 metr i ddyfrdwll neu ffynnon. | Ni ddylid defnyddio slyri ond pan fo'r cnwd neu'r glaswellt yn tyfu neu'n cael ei droi i mewn o fewn 24 awr i gynnal cnwd dilynol er mwyn lleihau colli maetholion.<br>Bydd chwistrellu slyri yn help os yw aroglau yn debygol o fod yn broblem.<br>*Perygl y bydd gormod o faetholion yn trwytholchi i mewn i'r system ddraenio neu'n llifo i mewn i gwrs dŵr.* | 5.2.3<br>5.2.4 |
| Achlesau solet | 18b 🔑 | DPA | Rhaid defnyddio achlesau buarth solet ar y tir mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o lygredd dŵr, aroglau annerbyniol neu gywasgu pridd. Ni ddylid eu defnyddio o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ffos a 50 metr i ddyfrdwll neu ffynnon. | Dylai achles solet gael ei gompostio am gyfnod priodol cyn ei roi ar y tir er mwyn atal colledion amoniwm ac i leihau aroglau.<br>*Perygl y bydd gormod o faetholion yn trwytholchi i mewn i'r system ddraenio neu'n llifo i mewn i gwrs dŵr.* | 5.2.3<br>5.2.4 |
| Plaleiddiaid | 18c 🔑 | DA | Dylai pawb sy'n rhoi plaleiddiaid ar y tir fod â thrwydded i wneud hynny neu fod dan oruchwyliaeth person â thrwydded neu gael hawliau 'taid'. Rhaid defnyddio plaleiddiaid yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr a pholisi diogelu cnydau'r fferm. Rhaid cadw cofnodion ynglŷn â defnyddio plaleiddiaid. | Gweler 16d. Mae hawliau taid yn berthnasol i unigolion a anwyd cyn 31/12/64.<br>Cyfeiriwch at y Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion.<br>*Perygl o wenwyn plaleiddiad yn achosi difrod i fywyd gwyllt ac iechyd pobl.* | 4.1.5 |
| Gwrteithiau artiffisial | 18d 🔑 | DPA | Rhaid defnyddio gwrteithiau a chalch ar adeg briodol o'r flwyddyn a pheidio â'u gorddefnyddio. Dylai'r cyfan fod yn unol â pholisi rheoli maetholion y fferm. Rhaid cadw cofnodion ynglŷn â defnyddio plaleiddiaid. | Ni ddylid rhoi gwrtaith nitrogen i dir glas ond rhwng 15 Medi a 15 Ionawr oni bai fod yna ofyniad penodol ar gyfer y cnwd.<br>*Ni fydd gormodedd o faetholion yn cael ei gymryd gan blanhigion, bydd yn creu amgylchedd annaturiol i fân-flodau'r pridd a gall beri i ormodedd maetholion drwytholchi i mewn i ddraeniau tir a dŵr daear.* | 5.2.3<br>5.2.5 |
| Gwastraff organig | 18e | DPA | Ni ddylid rhoi gwastraff organig fel llaid carthion ar dir oni bai fod gennych eithriad o dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol. | Gweler 5c. | 5.1.3<br>5.2.6 |

| 19. Gwaredu gwastraff | *Er mwyn atal crynodiad defnyddiau gwastraff nad oes eu hangen ac a allai beryglu amgylchedd y fferm* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff peryglus | 19a 🔑 | | Rhaid gwaredu'r holl wastraff peryglus yn unol â'r Canllawiau Dyletswydd Gofal o dan y Rheoliadau Rheoli Gwastraff 2009. | Ymhlith enghreifftiau o wastraff fferm sy'n cael ei ystyried yn beryglus mae olew gwastraff, asbestos, batrïau asid plwm a chemegau amaethyddol sy'n cynnwys sylweddau peryglus. | 7.1.2 |
| Plaleiddiaid a dip defaid | 19b 🔑 | | Ni ddylai plaleiddiaid a dipiau wedi'u teneuo a heb eu defnyddio gael eu rhoi ar dir oni bai eich bod wedi cael y caniatâd amgylcheddol/ awdurdodiad dŵr daear cywir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. | *Er mwyn rheoli gwaredu sylweddau a allai fod yn wenwynig ar y fferm ac i ddiogelu dŵr daear a chyrsiau dŵr.* | 7.1.5<br>7.1.6<br>7.2.4 |
| Gwastraff plastig | 19c 🔑 | | Ni ddylech waredu gwastraff plastig ond drwy rywun â thrwydded i wneud hynny. | Cysylltwch â'r Rhaglen Casglu ac Adennill Gwastraff Plastig Amaethyddol. www.agwasteplastics.org.uk | 7.2.2 |
| Carcasau anifeiliaid | 19d 🔑 | | Rhaid gwaredu carcasau anifeiliaid cyn gynted ag y bo modd trwy weithredwr llosgydd trwyddedig neu safle rendro. Rhaid cadw cofnodion am farwolaethau a gwarediadau. | *Gweler 9i* | 7.1.8 |
| Trwyddedau eithrio gwastraff | 19e | | Mae modd gwaredu neu storio gwastraff risg uchel ar y fferm os cafwyd yr eithriadau cywir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. | Gallai'r rhain gynnwys llosgi tocion gwrychoedd neu storio hen ddefnyddiau adeiladu. | 7.2.3<br>7.1.4 |
| **Argymhelliad:** | | | | | |
| Tipio anghyfreithlon | 19f | | Dylid hysbysu'r awdurdod lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd ar unwaith am bob digwyddiad o dipio anghyfreithlon ar. Rhaid clirio'r cyfan cyn gynted ag y bo modd. | | 7.2 |

| 20. Trin/ dipio defaid | *Er mwyn diogelu dŵr rhag llygredd – sylwer hefyd ar Atodiad 6* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Baddon dipio | 20a | D | Rhaid gosod y baddon o leiaf 10 metr oddi wrth ffos neu gwrs dŵr, ni ddylai fod â thwll draenio a rhaid bod modd casglu diferion o'r defaid. Rhaid gorchuddio'r baddon pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. | Dylai'r ramp draenio fod yn ddigon mawr i alluogi defaid i sefyll arno am ddeng munud. *Mae baddon heb orchudd yn beryglus.* | 3.2.5 |
| Cawod/chwythell | 20b | D | Mae modd defnyddio cawod neu chwythell yn y maes os yw'r pridd yn ddigon dwfn ac yn draenio'n rhwydd, os nad yw'n rhy lethrog ac os nad oes unrhyw ddraeniau neu ffosydd o fewn deg metr. Ni ddylid defnyddio'r rhain ar ierdrydd fferm neu oddi amgylch ierdydd, oni bai fod darpariaeth wedi'i wneud i ddal a chrynhoi unrhyw ddip sy'n cael ei ollwng gan y defaid. | Mae'n bwysig dewis y safle yn ofalus. *Perygl bod yr hylif sy'n draenio o'r gawod yn mynd i mewn i ddraeniau tir neu ffosydd cyfagos.* | 3.2.5 |
| Lloc diferu | 20c | D | Dylid gadael i'r defaid ddiferu am o leiaf deng munud cyn eu rhyddhau o'r lloc. | *Perygl y bydd y dip sy'n diferu o'r gwlân yn mynd i'r amgylchedd.* | 3.2.5 |
| Amseriad y dipio | 20d | D | Ni ddylid dipio defaid os oes disgwyl glaw o fewn 24 awr. | *Perygl o law yn golchi dip o'r gwlân i mewn i'r amgylchedd.* | 3.2.5 |
| Mynediad i ddŵr wyneb | 20e | D | Ni ddylai defaid gael mynediad i ddŵr wyneb am bythefnos ar ôl eu dipio neu gael cawod. | *Perygl o ddip o'r gwlân yn halogi dŵr wyneb yn uniongyrchol.* | 3.2.5 |
| Profiad a chymhwyster | 20f 🔑 | D | Dylai'r sawl sy'n ymwneud â dipio defaid ar y fferm fod yn gymwys i ddefnyddio a gwaredu dip defaid yn ddiogel a rhaid i'r person â chyfrifoldeb fod â thystysgrif prawf NPTC. | Gofyniad rheoleiddiol. *Perygl y gall rhywun heb gymhwyster neu sy'n ddibrofiad halogi'r amgylchedd neu fethu dipio defaid yn gywir.* | |

## Atodiad 1: Cadw Da Byw Dan Do – Faint o Le i'w Neilltuo

Isod mae rhai canllawiau ynglŷn â faint o le i'w neilltuo ar gyfer da dyw dan do. Canllawiau yn unig yw'r rhain ac ni chawsant eu pennu'n derfynol Dylai cynhyrchwyr farnu'r lle priodol i'w neilltuo yn ôl eu stoc a'u hadeiladau eu hunain.

### GWARTHEG

| Y Lle i'w Neilltuo ar gyfer Gwartheg Cig Eidion Rhydd (Ac Eithrio Teirw) | | |
|---|---|---|
| | Arwynebedd y pen ac eithrio cafnau | |
| Pwysau (kg) | Lloriau caled ($m^2$) | Lloriau delltog ($m^2$) |
| 200 | 3.0 | 1.1 |
| 300 | 3.4 | 1.5 |
| 400 | 3.8 | 1.8 |
| 500 | 4.2 | 2.1 |
| 600 | 4.6 | 2.3 |
| 700 | 5.0 | 2.5 |

| Ciwbiglau ar gyfer Gwartheg Cig Eidion | | |
|---|---|---|
| Pwysau (kg) | Hyd y ciwbiglau<br>gan gynnwys unrhyw gwrbyn (m) | Lled clir rhwng parwydydd (m) |
| 75 – 150 | 1.2 | 0.6 |
| 150 – 250 | 1.5 | 0.75 |
| 250 – 375 | 1.7 | 0.90 |
| Dros 375 | 2.1 | 1.10 |

| Lle i'w Neilltuo a Hyd Cafnau ar gyfer Buchod Sugno | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwysau (kg) | Hyd Ciwbiglau (m) | Lled Ciwbiglau (m) | Ierdydd Gorwedd â Gwasarn ($m^2$) | Ierdydd Bwydo â Gwasarn ($m^2$) | Ierdydd Delltog ($m^2$) | Hyd y Cafnau (mm) |
| <500 | 2.1 | 1.2 | 3.75 | 1.25 | 2.5 | 650 |
| 500 – 600 | 2.2 | 1.2 | 4.05 | 1.45 | 2.75 | 675 |
| >600 | 2.3 | 1.2 | 4.35 | 1.65 | 3 | 700 |

### DEFAID

| | |
|---|---|
| Mamogiaid tir isel (60–90 kg pwysau byw) | 1.2–1.4 $m^2$ o lawr y famog yn ystod beichiogrwydd |
| Mamogiaid tir isel ar ôl wyna pan fo'r ŵyn hyd at chwe wythnos oed | 2.0–2.2 $m^2$ o lawr y famog a'i hŵyn |
| Mamogiaid mynydd (45–65 kg pwysau byw) | 1.0–1.2 $m^2$ o lawr y famog yn ystod beichiogrwydd |
| Mamogiaid mynydd ar ôl wyna ac ŵyn sugno hyd at chwe wythnos oed | 1.8–2.0 $m^2$ o lawr y famog a'i hŵyn |
| Ŵyn hyd at 12 wythnos oed | 0.5–0.6 $m^2$ o lawr yr oen |
| Ŵyn a defaid 12 wythnos i 12 mis oed | 0.75–0.9 $m^2$ o lawr yr oen/dafad |
| Hyrddod | 1.5–2.0 $m^2$ |

**Defaid wedi'u cneifio – Mae modd neilltuo 10% yn llai o le ar gyfer defaid a gneifiwyd yn y gaeaf.**

**Maint grŵp – Os oes modd, dylid cadw mamogiaid beichiog mewn grwpiau o lai na 50 fel bod modd eu hadnabod yn well a rhoi gwell sylw iddynt adeg wyna.**

## Atodiad 2: Crynodeb o ofynion cyfreithiol ar gyfer llawdriniaethau cyffredin ar y fferm

### GWARTHEG

| Llawdriniaeth | Oedran | Y Dull | Y Sawl a all Wneud y Gwaith | Anesthetig |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbaddu** | Heb fod dros 7 diwrnod oed | Modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r sgrotwm | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Hyd at ddeufis oed | Unrhyw ddull heblaw modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r sgrotwm | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Deufis a throsodd | Unrhyw ddull heblaw modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r sgrotwm | Milfeddyg | Ie |
| **Digornio** | Hyd at 5 mis oed | Heb ei ddynodi | Ceidwad da byw cymwys | Ie |
| | Dros 5 mis oed | Heb ei ddynodi | Milfeddyg | Ie |
| **Dadimpio** | Heb fod dros 7 diwrnod oed | Serio cemegol | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Heb fod dros 6 mis oed | Heblaw'r uchod | Milfeddyg | Ie |
| **Cael gwared ar dethau ychwanegol** | Hyd at dri mis oed | Heb ei ddynodi | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Tri mis oed a throsodd | Heb ei ddynodi | Milfeddyg | Ie |

### DEFAID

| Llawdriniaeth | Oedran | Y Broses | Y Sawl a all Wneud y Gwaith | Anesthetig |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbaddu** | Heb fod dros 7 diwrnod oed | Modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r sgrotwm | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Hyd at dri mis oed | Unrhyw ddull ac eithrio dull llawfeddygol | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Tri mis oed a throsodd | Unrhyw ddulliau sy'n cynnwys modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r sgrotwm a dull llawfeddygol | Milfeddyg | Ie |
| **Tocio Cynffonnau** | Yr wythnos gyntaf | Modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r gynffon | Ceidwad da byw cymwys | Na |
| | Dros 3 mis oed | Unrhyw ddull sy'n cynnwys modrwy rwber neu ddyfais i atal y llif gwaed i'r gynffon a dull llawfeddygol | Milfeddyg | Ie |
| | Unrhyw oedran | Tocio cynffon trwy ddull llawfeddygol sy'n gadael digon o gynffon i orchuddio'r fylfa (anifeiliaid benyw) neu'r anws (anifeiliaid gwryw) | Milfeddyg | Ie |
| | Unrhyw oedran | Yn fyrrach na'r hyn a nodir uchod ond mewn achos brys yn unig, oherwydd clefyd neu anaf. | Os oes modd, ceisiwch gyngor milfeddygol i'w ddilyn gan geidwad da byw cymwys | Ie, fel arfer, am nad yw'n driniaeth reolaidd |
| Rhaid gadael digon o gynffon i orchuddio'r fylfa (anifeiliaid benyw) a'r anws (anifeiliaid gwryw). Ni ddylid tocio'r gynffon yn fyrrach na hyn ond mewn achos brys, neu oherwydd clefyd neu anaf – yn dilyn ymgynghoriad â milfeddyg – a rhaid defnyddio anesthetig. | | | | |
| **Digornio** | Unrhyw oedran | Ystyriwch yr angen i ddigornio'r anifail. | Milfeddygol | Ie |

## Atodiad 3: Darparu gwasarn mewn cerbyd ar gyfer cludiant

| | Lloriau gwrthlithro yn unig? | Gwellt | Blawd llif | Llawr trydyllog |
|---|---|---|---|---|
| Gwartheg | Ie | Ie | Ie | Na |
| Lloi | Na | Ie | Na | Na |
| Defaid | Na | Ie | Ie | Na |

## Atodiad 4: Argymhellion ynglŷn â'r Lle y dylid ei Neilltuo yn ystod Cludiant

### GWARTHEG

| Categori | Pwysau (yn fras) (kg) | Y lle i'w neilltuo (m² y pen) |
|---|---|---|
| Lloi bach | 55 | 0.30-0.40 |
| Lloi canolig eu maint | 110 | 0.40-0.70 |
| Lloi trwm | 200 | 0.70-0.95 |
| Gwartheg canolig eu maint | 325 | 0.95-1.30 |
| Gwartheg trwm | 550 | 1.30-1.60 |
| Gwartheg trwm iawn | dros 700 | dros 1.60 |

Gall y bydd y ffigurau hyn yn amrywio, gan ddibynnu nid yn unig ar faint a phwysau'r anifeiliaid, ond hefyd ar eu cyflwr corfforol, y tywydd a hyd tebygol y daith.

### DEFAID

| Categori | Pwysau (yn fras) (kg) | Y lle i'w neilltuo (m²) |
|---|---|---|
| Defaid wedi'u cneifio ac ŵyn | o dan 55 | 0.20-0.30 |
| | dros 55 | dros 0.30 |
| Defaid heb eu cneifio | o dan 55 | 0.30-0.40 |
| | dros 55 | dros 0.40 |
| Mamogiaid beichiog iawn | o dan 55 | 0.40-0.50 |
| | dros 55 | dros 0.50 |

Gall y bydd faint o le sy'n cael ei neilltuo yn amrywio gan ddibynnu ar frid, maint, cyflwr corfforol a hyd cnu yr anifeiliaid, yn ogystal ag ar y tywydd a hyd y daith. Er enghraifft, gellid darparu arwynebedd o lai na 0.2 m² yr anifail ar gyfer ŵyn bach.

## Atodiad 5 – Storio gwrtaith mwynol artiffisial yn ddiogel

Mae gwrtaith mwynol [neu sydd wedi'i weithgynhyrchu] yn gynnyrch gwerthfawr i ffermwyr a thyfwyr ond gall fod yn beryglus yn y dwylo anghywir. Felly, mae'n hollbwysig storio gwrtaith yn ddiogel a phwrpas yr hunanasesiad hwn yw eich helpu i wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y rheolau sylfaenol ynglŷn â storio a diogelwch. Mae'r daflen "Security of Fertiliser Storage on Farms" yn cael ei hatgynhyrchu isod a dylai fod gennych brotocol ar waith i fonitro diogelwch gwrtaith (rhoddir enghraifft isod).
Argymhellir hefyd eich bod yn defnyddio'r Rhestr Wirio yn Adran FSMR (11). Mae'r daflen yn cynnwys y cod 10-pwynt a ganlyn:

| PEIDIWCH Â: | DYLECH: |
|---|---|
| **Storio** gwrtaith lle mae mynediad gan y cyhoedd.<br>**Gadael** gwrtaith yn y cae dros nos.<br>**Storio** gwrtaith yn agos i, neu lle mae modd ei weld o'r ffordd fawr.<br>**Gwerthu** gwrtaith oni bai eich bod yn adnabod y prynwr ac yn gwybod ei fod yn ffermwr sy'n defnyddio gwrtaith ac sy'n ymwybodol o'r angen i ddilyn yr arweiniad hwn. | **Cofnodi** gwrtaith sy'n cyrraedd y fferm a'r defnydd ohono.<br>Pryd bynnag y bo modd, ac yn unol â chanllawiau diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, storio gwrtaith mewn adeilad neu iard wedi'u cloi.<br>**Gorchuddio gwrtaith yn llwyr â chynfas** os yw'n cael ei storio yn yr awyr agored a'i archwilio'n rheolaidd i wneud yn siŵr nad oes neb wedi ymyrryd â'r pentwr.<br>**Archwilio'r** stoc yn rheolaidd.<br>**Hysbysu'r** heddlu ar unwaith os oes unrhyw anghysondeb.<br>**Cofnodi** unrhyw rifau cod a roddwyd ar y cydau gan y gweithgynhyrchwr ac, os yw ar gael, rif y dystysgrif ymwrthedd i daniad. |

Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan eich cyflenwr neu o lyfryn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, "Storio a Thrafod Amoniwm Nitrad" yn http://www.hse.gov.uk/pubns/indg230.pdf.
Os ydych chi'n storio 25 tunnell fetrig neu fwy o wrtaith, rhaid i chi roi gwybod i'ch swyddog tân lleol ac i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). O dan Reoliadau NIHHS (Gwelliant) 2002, rhaid i ddefnyddwyr gwrteithiau Amoniwm Nitrad (AN) a'r rhai sy'n seiliedig ar AN ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r HSE os oes 150 tunnell fetrig o'r gwrteithiau hyn yn cael eu trafod neu storio ac sy'n cynnwys dros 15.75% o Nitrogen yn ôl pwysau.
Rhaid i chi beidio â gwerthu gwrtaith oni bai eich bod yn adnabod y prynwr ac yn gwybod ei fod yn ddefnyddiwr gwrtaith dilys. Os ydych chi'n ailwerthu gwrtaith AN â chyfran uchel o nitrogen (h.y. yn cynnwys dros 28% yn ôl ei bwysau), rhaid bod gennych dystysgrif ddilys o ymwrthedd i daniad ar gyfer y llwyth hwnnw.

## Atodiad 6 - Arweiniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â Defnyddio a Gwaredu Dipiau Defaid

**Sylwer:** Mae'r term 'dipio defaid' yma yn cynnwys defnyddio dipiau dowcio sefydlog a symudol a defnyddio systemau cawod neu chwythell

**Cyn i chi Ddipio**
- Rhaid cael caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru os oes angen gwaredu **unrhyw** ddip defaid ar y tir
- Rhaid llenwi'r twba dipio â dŵr hyd nes ei fod yn gorlifo, ac yna rhaid dilyn y llif ac atal unrhyw ddŵr sy'n llifo i gwrs dŵr
- Dylech adael y twba'n llawn o ddŵr dros nos, a gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddŵr yn gollwng

**Yn ystod ac Yn Syth Ar Ôl Dipio/Triniaeth**
- Gwnewch yn siŵr fod rhywun sydd â'r Dystysgrif Gymhwysedd gywir ar gyfer defnyddio dip defaid yn bresennol drwy'r amser yn ystod dipio
- Defnyddiwch gynhyrchion wedi'u hawdurdodi yn unig a dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- Gwnewch yn siŵr fod yr holl ddŵr sy'n diferu a thasgu yn llifo nôl i'r twba
- Gwnewch yn siŵr fod gennych ddefnydd priodol i amsugno unrhyw ollyngiadau
- Gadewch i bob dafad sefyll yn y gorlan ddraenio er mwyn dal unrhyw oferiad am o leiaf ddeng munud
- Peidiwch â dychwelyd defaid newydd eu dipio i dir pori arferol. Rhowch nhw dros dro mewn cae â chafnau dŵr, ond heb gyrsiau dŵr, oni bai fod y cyrsiau dŵr wedi'u ffensio er mwyn cadw allan da byw

***Rhagofalon Arbennig ar gyfer dipiau symudol, chwythellau neu gawodydd.*** *Mae'r rhain yn debygol iawn o achosi llygredd os cânt eu defnyddio ar ierdydd neu lonydd ffermydd, oni bai fod camau gofaus dros ben yn cael eu cymryd i ddal unrhyw ddip a* ***all*** *redeg oddi ar ddefaid neu allan o unedau.*

**Ar Ôl Dipio**
- Gwagiwch y twba dipio cyn gynted ag y bo modd, i mewn i dancer gwactod neu gynhwysydd arall sy'n addas ar gyfer storio dip, a chael gwared â'r dip yn ddi-oed
- Rinsiwch unrhyw gynwysyddion dip gwag, golchwch y mannau dipio, a gwnewch yn siŵr eich bod yn casglu'r golchion yn y twba dipio – er mwyn eu gwaredu yn y lle a ganiatawyd gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru.
- Dilynwch yr amodau yng nghaniatâd Asiantaeth Amgylchedd Cymru, sy'n cynnwys gwasgaru'n denau, osgoi tir sy'n serth iawn, â draeniad gwael, sydd â phridd wedi cracio neu'n ddyfrlawn, neu sy'n bwysig i fywyd gwyllt
- Peidiwch â gwaredu o fewn 10m i gwrs dŵr neu 50m i ffynnon, twll turio neu darddell
- Cymerwch ofal rhag gollwng unrhyw ddip wrth ei gludo

**Fodd bynnag, mae modd defnyddio unedau mewn caeau:**
- os yw'r safleoedd yn cael eu harchwilio'n gyntaf i wneud yn siŵr eu bod yn wastad,
- os oes digon o laswellt ac
- os oes o leiaf 10m o bellter oddi wrth gwrs dŵr neu 50m oddi wrth unrhyw ffynnon, twll turio neu darddell.

Mae arweiniad pellach ar gael yn y *Cod Diogelu Dŵr Daear: defnyddio cymysgedd dip defaid a chael gwared arno*, a gyhoeddwyd gan Defra yn 2006 ac sydd ar gael yn swyddfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

### Atodiad 7 – Arweiniad i Ddefnyddio Achlesau, Llaid Carthion neu Gompostau

Gallai defnyddio achlesau organig, lleidiau carthion neu gompost lygru'r amgylchedd lleol neu halogi cnydau a da byw. Mae ambell ddefnydd o'r rhain yn cael ei gyfyngu gan y gyfraith ac mae yna gyngor ychwanegol ynglŷn ag arferion da. Rhoddir crynodeb o'r rhain yma.

#### Defnyddio achlesau ar dir glas

Gall defnyddio achlesau ar dir pori arwain at broblemau difrifol. Peidiwch â gwneud hyn os oes modd.

Gall gwasgaru achlesau ar dir pori gyfrannu at drosglwyddo clefyd i anifeiliaid iach. Daw'r perygl mwyaf wrth wasgaru slyri ffres na gafodd ei storio. Mae yna lai o berygl wrth storio, peidio â gwasgaru'n rhy drwm a gadael y tir heb ei bori am mor hir ag y bo modd.

Bydd compostio achlesau solet trwy ddull aerobig – wrth droi tomennydd neu orfodi awyriad – yn lleihau'r perygl o drosglwyddo clefyd yn sylweddol. Storiwch slyri ac achles solet am o leiaf fis cyn gwasgaru. Ar ôl hynny, ni ddylid pori'r tir am o leiaf fis, neu wyth wythnos yn ddelfrydol, neu nes bod pob arwydd gweledol o gynnwys solet y slyri wedi diflannu, er mwyn lleihau'r perygl o drosglwyddo clefyd. Mae stoc ifanc yn fwy agored i heintiad a dylai'r cyfnod rhwng gwasgaru a phori fod yn chwe mis.

Camau Rheoli Allweddol

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod cynnwys maethol yr achlesau sy'n cael eu gwasgaru
- Gwasgarwch achlesau yn gyson ac yn ôl cyfraddau hysbys
- Gwnewch yn siŵr fod y tir yn cael y daioni o'r achlesau'n gyflym (pan fo hynny'n briodol) neu defnyddiwch dechneg a fydd yn lleihau colledion amonia
- Gwasgarwch achlesau yn y gwanwyn (os oes modd) er mwyn lleihau colledion nitrad oherwydd trwytholchiad
- Ystyriwch gynnwys maethol yr achlesau wrth gyfrifo faint o wrtaith anorganig y dylid ei ychwanegu.

Wrth ddilyn y camau hyn, bydd achlesau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, heb amharu ar gynnyrch ac ansawdd y cnydau, a byddwch yn lleihau'r perygl o lygredd amgylcheddol yn fawr.

#### Tail dofednod

Argymhellir y dylai cynhyrchwyr, pryd bynnag y bo modd, beidio â gwasgaru tail dofednod ar dir pori. Os yw tail dofednod yn cael ei wasgaru ar dir pori, dylai cynhyrchwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon o dda byw'n dal botwliaeth a dylent gadw'r tir heb ei bori am gyfnod priodol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghyfres Rheoli Achlesau ADAS – *Making better use of livestock manures on grassland.*

| | Llaid Carthion | | |
|---|---|---|---|
| Cnwd | **Llaid Heb ei Drin** | **Llaid wedi'i Drin yn Gonfensiynol** | **Llaid wedi'i Drin yn Helaethach** |
| Cnydau Combein a Phorthiant Anifeiliaid | ✘ | ✔ | ✔ |
| Glaswellt a Phorfwyd – yn cael eu pori | ✘ | ✘ Wedi'i chwistrellu'n ddwfn neu ei droi i mewn yn unig. Cyfnod o dair wythnos cyn pori neu gynaeafu | ✔ Cyfnod o dair wythnos cyn pori neu gynaeafu |
| Glaswellt a Phorfwyd – i'w cynaeafu | ✘ | ✔ Dim pori yn ystod y tymor gwasgaru | ✔ Cyfnod o dair wythnos cyn pori neu gynaeafu |

#### Llaid Carthion

***Ni*** chaniateir defnyddio llaid carthion heb ei drin. Ni ellir defnyddio llaid wedi'i drin ond o dan amodau sy'n cael eu rheoli'n gaeth. Rhaid i'r defnydd o laid gael ei gofrestru a rhaid profi'r pridd gan y cynhyrchydd llaid. Wrth ddefnyddio llaid, rhaid dilyn y 'Matrics Llaid Carthion Diogel' a gall y bydd y ffordd y cafodd y llaid ei drin ddylanwadu ar pryd a lle y gellir defnyddio'r llaid. Bydd y Gweithredwr Carthffosiaeth lleol yn gallu darparu rhagor o wybodaeth.

**Llaid Heb ei Drin**: ni chafodd hwn ei ganiatáu ar unrhyw dir amaethyddol ers dechrau 2006.

**Llaid wedi'i Drin yn Gonfensiynol**

Mae amryw o brosesau trin yn cael eu defnyddio i leihau'r eplesu a'r peryglon iechyd posibl sy'n gysylltiedig â lleidiau carthion gwahanol. Mae'r rhain yn dibynnu ar driniaeth fiolegol, gemegol neu â gwres. Y driniaeth fwyaf gyffredin yw biodreulio anerobig. Mae llaid carthion wedi'i drin yn gonfensiynol yn rhwym wrth brosesau a safonau trin penodol sy'n gwneud yn siŵr fod o leiaf 99% o'r pathogenau wedi'u difetha.

**Llaid wedi'i Drin yn Helaethach**

Mae'r prosesau yn y driniaeth hon yn gallu cael gwared bron yn gyfan gwbl ag unrhyw bathogenau a allai fod wedi bodoli yn y llaid gwreiddiol. Bydd llaid a gafodd ei drin yn helaethach yn rhydd o *Salmonella* a bydd wedi cael ei drin er mwyn gwneud yn siŵr fod 99.9999% o'r pathogenau wedi cael eu dinistrio (lleihad o chwe log).

**Compostau**

Mae compostau sy'n cael eu cynhyrchu o ddefnyddiau organig ***oddi ar y fferm*** ar gael fwyfwy i'w defnyddio ar y tir. Gall y rhain fod yn fanteisiol ond rhaid eu defnyddio mewn ffordd sy'n briodol i ffynhonnell y compost, sut cafodd ei drin a'r tir lle caiff ei ddefnyddio. Mae rheoliadau mewn grym.

**Compost Gwastraff Gwyrdd**

Compost o wastraff 'Gwyrdd' wedi'i ddidoli yn y tarddiad yn unig y gellir ei roi ar dir, ar yr amod bod:

– Y cyfleuster compostio wedi'i ardystio i'r safon 'PAS100'
– ac (yng Nghymru a Lloegr) bod y defnydd ohono'n dilyn y 'Protocol Ansawdd;

**NEU:**

– Bod y defnydd o'r compost yn amodol i eithriadau neu ganiatadau penodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Ni ddylid defnyddio compost o wastraff gwyrdd wedi'i ddidoli yn y tarddiad sy'n dod o'r tu allan i'r daliad ac nad yw'n bodloni'r un o'r amodau hyn.

**Compost o Wastraff Gwyrdd a Gwastraff Bwyd Cymysg**

Gall compost sy'n cael ei gynhyrchu o wastraff 'Bwyd a Gwyrdd Cymysg' wedi'i ddidoli yn y tarddiad ac sy'n dod o'r tu allan i'r fferm gynnwys gwastraff cig o adeiladau arlwyo a domestig a gall gynnwys peryglon. Ni ddylid defnyddio hwn ond ar dir sydd i'w ddefnyddio ar gyfer cnydau combein:

Eto **nid oes modd ei ddefnyddio oni bai bod:**

– Y cyfleuster compostio wedi'i ardystio i'r safon 'PAS100'
– a bod y defnydd ohono'n dilyn y 'Protocol Ansawdd'

**NEU:**

– Bod y defnydd o'r compost yn amodol i eithriadau neu ganiatadau penodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Argymhellir *na ddylid* rhoi'r compost hwn ar *dir pori*. Mewn gwirionedd, nodir y cyfnodau gofynnol ar gyfer dim pori yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y math hwn o gompost. Y cyfnodau hyn yw:

| | |
|---|---|
| – MOCH | 2 fis |
| – DA BYW ERAILL | 3 wythnos |

Yn yr un modd, argymhellir *na ddylid* rhoi'r defnydd hwn ar dir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cynnyrch ffres ac yn benodol ar dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer Ffrwythau a Phlanhigion Salad (yn barod i'w bwyta) a nodir yng ngholofnau 1 a 2 o'r 'Matrics Categorïau Cnydau'.

Asesu

Bydd aseswyr yn archwilio'r cofnodion o ddefnyddio compost un ai ar ôl y Protocol Ansawdd neu yn unol â chaniatadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru).

Sylwer: Hyd yn oed pan fo'r gyfraith yn caniatáu defnyddio llaid carthion a chompost a phan fo'r defnydd ohonynt yn cydymffurfio â chodau ymarfer, dylai cynhyrchwyr gysylltu â'r prynwyr i wneud yn siŵr fod y defnydd yn dderbyniol gan gwsmeriaid penodol.